RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
100/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
26/10/2023

# Gwerthusiad o’r Grant Urddas Mislif

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-972-3

**Teitl:** Gwerthusiad o’r Grant Urddas Mislif

**Awdur:** Sophi Ducie (Arweinydd Gwerthuso)
**Ymchwilwyr:** Holly Turrell, Naba Hassan, Dr Claire Bennett, Charlotte Amesbury a Tegwen Parry
**Adolygwyd gan:** Toni Hogg (Swyddog Cydymffurfiaeth Ansawdd), Karen Etheridge (Cyfarwyddwr Gwerthuso)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Sophi Ducie (2023). Gwerthusiad o’r Grant Urddas Mislif. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 100/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-grant-urddas-yn-ystod-mislif-llywodraeth-cymru

Hoffai M.E.L. Research ddiolch i Dr Steven Macey a'i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am eu holl gefnogaeth i gyflawni'r gwerthusiad hwn. Diolch hefyd i'r holl awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, ysgolion, lleoliadau cymunedol, dysgwyr ac eraill sy’n cael eu cefnogi drwy'r grant a roddodd adborth ar eu profiadau.

Mae'r prosiect hwn wedi'i gyflwyno i safonau ISO 9001: 2015, 20252: 2019 a 27001: 2013.

Barn yr ymchwilydd yw’r farn sy’n cael ei mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Steven Macey

Is-adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau....2

Rhestr o siartiau....3

Geirfa....4

1. Cyflwyniad....5

2. Ynglŷn â'r Grant Urddas Mislif....6

3. Dull gwerthuso....9

4. Canfyddiadau gwerthuso....18

5. Casgliadau....57

6. Argymhellion....60

7. Atodiadau....62

Atodiad A: Canllaw trafod manwl – sefydliadau....63

Atodiad B: Enghreifftiau gweledol o'r bwrdd cymunedol ar-lein....66

Atodiad C: Arolwg meintiol (defnyddwyr terfynol a sefydliadau)....67

Atodiad D: Enghraifft o ffurflen fonitro ddiweddaraf 2022-2023 a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru....77

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Crynodeb o'r gweithgareddau gwerthuso a nifer y cyfranogwyr wnaeth gymryd rhan. ..... 15
Tabl 2: Nifer cyfartalog o sefydliadau cynradd, uwchradd a/neu sefydliadau cymunedol mae awdurdodau lleol wedi cefnogi drwy'r Grant Urddas Mislif drwy’r cyfnod ariannu ... 19
Tabl 3: Pa grwpiau ethnig lleiafrifol ydych chi'n eu cefnogi? ..... 20
Tabl 4: Trosolwg o fodelau cyffredin i ddosbarthu cynhyrchion mislif am ddim a chyfrannau sy’n nodi bod y dull hwn yn gweithio'n arbennig o dda ..... 25
Tabl 5: Amrywiaeth o gynhyrchion mislif a brynwyd yn ystod y cyfnod cyllido ysgolion a chymunedol ..... 32
Tabl 6: Sut mae sefydliadau wedi mynd ati i addysgu pobl am gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a/neu ddi-blastig ..... 37
Tabl 7: Dadansoddiad Sbardunau Allweddol ..... 42
Tabl 8: Pa gymorth ychwanegol, os o gwbl, ydych chi wedi manteisio arno y tu allan i'r grant i helpu i gefnogi pobl sy'n cael mislif? ..... 55

**Rhestr o siartiau**


Siart 1: Trosolwg o sut mae'r grant presennol yn cael ei weinyddu a'i ddosbarthu ledled Cymru....8

Siart 2: Cyn y Grant Urddas Mislif, sut wnaeth eich sefydliad gefnogi pobl sy'n cael mislif? 18

Siart 3: Ydych chi'n cefnogi unrhyw rai o'r grwpiau canlynol o bobl? ....20

Siart 4: Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ydych chi wedi manteisio ar, ac os felly, pam ydych chi wedi bod angen manteisio ar gynhyrchion mislif am ddim o'ch ysgol/sefydliad addysg bellach neu leoliad cymunedol?....21

Siart 5: Hyrwyddo / codi ymwybyddiaeth o'r cynhyrchion mislif am ddim sydd ar gael ....22

Siart 6: Ac eithrio cynnig cynhyrchion mislif am ddim, sut arall ydych chi wedi cefnogi pobl drwy'r cyllid y gwnaethoch chi ei dderbyn?....23

Siart 7: Bylchau mewn cefnogaeth a / neu dderbyn cynhyrchion mislif am ddim ....29

Siart 8: Y math o gynhyrchion mislif am ddim a gynigir....30

Siart 9: Pa mor aml mae'r cynhyrchion mislif am ddim yn cael eu cymryd gan y bobl rydych chi'n eu cefnogi? ....33

Siart 10: Yn ystod cyfnod ariannu 2022/23, pa gyfran o'r cyllid / cynhyrchion a brynwyd gafodd ei wario ar gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a/neu gynhyrchion di-blastig?....34

Siart 11: Pa gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a / neu ddi-blastig a ddarparwyd gennych / o'i gymharu â chynhyrchion a ddefnyddiwyd gan ddefnyddwyr terfynol ....35

Siart 12: Rhwystrau rhag cael cynhyrchion mislif am ddim ....40

Siart 13: Y graddau y mae defnyddwyr terfynol yn cytuno bod cynhyrchion mislif am ddim a gwybodaeth am y mislif wedi ....41

Siart 14: Y graddau y mae defnyddwyr terfynol yn cytuno, oherwydd cynhyrchion mislif am ddim a gwybodaeth, eu bod nhw’n teimlo fel a ganlyn... ....45

Siart 15: Y graddau y mae defnyddwyr terfynol yn cytuno bod cynhyrchion mislif am ddim a gwybodaeth am y mislif wedi effeithio arnyn nhw....47

Siart 16: Beth yw eich rôl mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi mislif ac urddas mislif i'ch sefydliad? ....51

Siart 17: Pa rwystrau mae eich sefydliad wedi'u hwynebu wrth gynnig cynhyrchion mislif am ddim / cefnogaeth i bobl? ....52

Siart 18: Sut ydych chi'n monitro ymwybyddiaeth a / neu’r nifer sy’n manteisio ar gynhyrchion mislif am ddim? ....56

**Geirfa**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Defnyddwyr terfynol | Pobl hŷn, y rhai nad ydynt mewn addysg a dysgwyr sydd wedi derbyn, cyrchu a/neu wedi defnyddio cynhyrchion mislif am ddim a / neu wedi cael cynnig addysg / gwybodaeth am y mislif a chynhyrchion ecogyfeillgar. |
| Cymunedau heb wasanaeth digonol | Gan gynnwys cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl anabl a chymunedau LHDTC+. |
| Lleoliadau cymunedol | Lleoliadau cymunedol e.e. grwpiau gwirfoddol, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden ac ati. |
| Dadansoddiad sbardunau allweddol (KDA) | Mae dadansoddiad sbardunau allweddol (KDA) yn brawf ystadegol sy'n archwilio'r gydberthynas rhwng pob agwedd a ofynnir (newidynnau annibynnol), gan greu'r cyfuniad gorau i ragfynegi'r cytundeb cyffredinol (newidyn dibynnol). Mae KDA yn darparu gwerth R-sgwâr wedi'i addasu sy'n dangos pa mor dda mae'r newidynnau annibynnol yn rhagfynegi'r newidyn dibynnol. Mae hyn wedyn yn rhoi gwerth perfformiad sy'n cael ei gymharu yn erbyn gwerth y cytundeb. Os yw gwerth perfformiad newidyn yn agos at 1, yna mae'n sbardun cryf ar gyfer profiad cyffredinol. Os yw'r gwerth yn agos at 0, yna mae'n sbardun gwan ar gyfer profiad cyffredinol. |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| LHDTC+ | Lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, rhyngrywiol, cwiar/cwestiynu, anrhywiol a llawer o dermau eraill (fel anneuaidd a phanrywiol). |
| Tlodi mislif | Diffyg mynediad at gynhyrchion mislif oherwydd heriau ariannol. |

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Y cyd-destun ehangach

Mae ymchwil a gyflwynwyd gan Plan International yn dangos bod tlodi mislif ac urddas mislif yn faterion cymhleth, gan fod stigma cymdeithasol a chamddealltwriaeth ynghylch y mislif yn dal i fodoli – yn genedlaethol ac yn rhyngwladol – ynghyd â theimladau o embaras a chywilydd am y mislif a'r fforddiadwyedd i lawer o ferched a menywod. Mae yna hefyd wahanol agweddau ac ymddygiadau crefyddol a diwylliannol tuag at ferched a menywod sy'n cael trafferthion, megis bod yn fudr, yn amhur neu'n frwnt, a chyfyngiadau'n cael eu gosod arnynt o ganlyniad i gael mislif, fel methu gweddïo, ymolchi neu ymprydio. Canfu arolwg rhyngwladol a gynhaliwyd gyda dros 4,000 o bobl rhwng 16 a 25 mlwydd oed fod mwy nag 1 o bob 3 yn teimlo y dylid cadw mislif yn gyfrinach.[1]

Edrychodd ymchwil gan Plan International UK[2] ar brofiadau merched o'r mislif yn y DU. Fe wnaethant ganfod bod fforddiadwyedd cynhyrchion mislif tafladwy yn waharddol i lawer o unigolion a theuluoedd, sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd fforddio bwyta a thalu biliau. Mae llawer o ferched ysgol yn dibynnu ar ffrindiau am gynhyrchion mislif, yn defnyddio deunyddiau byrfyfyr neu ddim yn mynd i'r ysgol yn ystod eu mislif. Nodwyd bod merched digartref, ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn arbennig o agored i niwed. Gall yr effaith ar lesiant, lles meddyliol a hunan-barch fod yn niweidiol iawn.

Nododd yr adroddiad y byddai dosbarthu cynhyrchion mislif mewn ysgolion, gan gynnwys cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio, yn chwarae rhan wrth sicrhau nad oes unrhyw ferch yn cael trafferth fforddio deunyddiau mislif. Fodd bynnag, roedd pwyslais hefyd bod angen i hyn fynd law yn llaw â hyfforddiant ac addysg, ar gyfer staff a disgyblion, ynghylch rheoli hylendid mislif a chodi ymwybyddiaeth ehangach.

## 1.2 Cefndir i'r gwaith yng Nghymru

Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu'r Grant Urddas Mislif.[3] Nod y grant hwn yw newid yn gadarnhaol sut mae menywod, merched a phobl sy'n cael mislif yn profi mislif yng Nghymru.



**Beth yw Urddas Mislif?** Mae Urddas Mislif yn ymwneud â dileu'r stigma a'r cywilydd ynghylch y mislif, addysgu pobl i'w helpu i ddeall bod mislif yn normal ac yn iach a sicrhau bod gan bawb yr hyn sydd ei angen arnynt i reoli eu mislif.[4]

---

[1] New survey shows 'deep-rooted' taboos around periods
[2] Break the barriers: Girls' experiences of menstruation in the UK
[3] Yr enw blaenorol arno oedd Grant Hylendid Benywaidd a Grant Tlodi Mislif
[4] Cynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn blaenoriaethu mynd i'r afael â thlodi mislif ers peth amser, ac ers 2018 mae wedi buddsoddi dros £16 miliwn i sicrhau bod plant a phobl ifanc, a'r rhai ar incwm isel yn gallu cael cynhyrchion mislif am ddim.

Yn 2018, darparodd Llywodraeth Cymru £920,000 i fynd i'r afael â thlodi mislif. Yn 2019, ehangodd ei ffocws ar urddas mislif, trwy'r canlynol:

- Buddsoddi £2.5 miliwn i helpu awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach i ddosbarthu cynhyrchion mislif, er mwyn gwella ymwybyddiaeth a chynnig profiad mwy urddasol i bobl.
- Darparu dros £2 filiwn yn 2020 i sicrhau y gallai dysgwyr mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach, y rhai hynny mewn angen mewn cymunedau a chleifion mewnol ysbytai trwy bandemig y coronafeirws (COVID-19) gael cynhyrchion mislif am ddim. Un o amodau'r cyllid hwn oedd sicrhau bod 50% o gynhyrchion mislif yn ddi-blastig neu'n gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio.

## 2. Ynglŷn â'r Grant Urddas Mislif

Pwrpas y rhaglen Grant Urddas Mislif yw sicrhau'r canlynol ar gyfer pawb sy'n cael mislif (gan ganolbwyntio ar ddysgwyr, a'r rhai ar incwm isel):

- **Cael** cynhyrchion mislif am ddim **yn haws**.
- Profi **llai o darfu** ar yr ysgol, gwaith, neu weithgareddau cymdeithasol oherwydd ei bod yn haws cael cynhyrchion mislif am ddim.
- Meddu ar **wybodaeth** a **phrofiad** o gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio/di-blastig a'r **hyder** i ddefnyddio'r rhain.
- Cael **mwy** o adnoddau **economaidd**.

### 2.1.1 Sut mae'r grant yn cael ei ddarparu

Mae cynhyrchion mislif am ddim ar gael a/neu yn cael eu cynnig i bob dysgwr sy'n profi mislif mewn lleoliadau addysgol, ac i'r rhai o aelwydydd incwm isel trwy leoliadau cymunedol lleol fel llyfrgelloedd ac ati. Gellir defnyddio'r cyllid i brynu'r mathau canlynol o gynhyrchion:

- Padiau a thamponau mislif tafladwy
- Cynhyrchion mislif ecogyfeillgar fel cwpanau mislif y gellir eu hailddefnyddio, dillad isaf a phadiau mislif a phadiau tafladwy di-blastig (yn ystod 2022/23, roedd Llywodraeth Cymru yn mynnu bod 65% o gyfanswm gwariant y grant yn cael ei ddefnyddio i brynu cynhyrchion mislif ecogyfeillgar. Yn ystod y cyfnod grant diweddaraf (2023/24), mae cyfanswm y gwariant wedi cynyddu i 70%.)
- Bagiau gwaredu mislif
- Pyrsiau storio / bagiau gwlyb i'w defnyddio gyda chynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio

- Dillad i'w darparu lle nad oes gan ddysgwyr, a phobl sy'n profi digartrefedd, ddillad glân i newid iddynt ar gael ac mae gwaedu mislifol wedi staenio neu faeddu eu dillad – wedi'u cyfyngu i ddillad isaf, trowsus, sgertiau, teits mewn lleoliadau ysgol
- Cyflenwyr cynhyrchion mislif.

Gellir defnyddio'r cyllid hefyd tuag at ddosbarthu a phostio cynhyrchion mislif am ddim i ddefnyddwyr terfynol h.y. cyfeiriad eu cartref. Mae'r cyllid hefyd yn caniatáu i hyd at 20% gael ei ddefnyddio at ddibenion hyfforddiant neu addysg mewn ysgolion a chymunedau, ar gyfer gweithwyr proffesiynol, dysgwyr ac aelodau o'r gymuned. Rhaid i unrhyw hyfforddiant neu addysg ddarparu gwybodaeth a'r cyfle i fynd ag unrhyw gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio adref a rhoi cynnig arnyn nhw a dylid eu halinio â phecynnau hyfforddi presennol sydd eisoes ar gael yn yr ardal. Gofynnir i sefydliadau gwblhau ffurflen fonitro grant ddwywaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r ffurflen fonitro yn amlinellu sut mae'r cyllid wedi cael ei wario.

***Llun 1: Cynhyrchion sy'n cael eu darparu mewn canolfan gymunedol yn ne Cymru***




### 2.1.2 Newidiadau allweddol i ddyraniad y grant:

Yn ystod 2018 a 2021, darparwyd y grant drwy dri dyraniad ar wahân:

1. Pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru[5]: defnyddiwyd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd
2. Pob un o'r 22 awdurdod lleol² Yng Nghymru: defnyddiwyd mewn hybiau cymunedol (megis banciau bwyd, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, grwpiau cymunedol)
3. Pob un o'r 13 sefydliad addysg bellach yng Nghymru: yn uniongyrchol iddynt o 2019.

Mae Siart 1 yn cyflwyno trosolwg o sut mae'r grant presennol yn cael ei weinyddu a'i ddosbarthu ledled Cymru:

**Siart 1: Trosolwg o sut mae'r grant presennol yn cael ei weinyddu a'i ddosbarthu ledled Cymru**




[5] O 2021/22 ymlaen, cyfunwyd pwynt 1 a 2 uchod.

# 3. Dull gwerthuso

## 3.1 Diben ac amcanion gwerthuso

I gefnogi Llywodraeth Cymru i asesu gweithrediad ac effaith y Grant Urddas Mislif, comisiynwyd M·E·L Research i gynnal gwerthusiad annibynnol. Roedd y gwerthusiad eisiau archwilio'r canlynol:

- Asesu effeithiolrwydd y cyllid cyfredol a'r broses lledaenu cynhyrchion mislif am ddim (gwerthuso prosesau).
- Nodi'r effaith mae'r grant yn ei chael ar dderbynwyr cynhyrchion mislif am ddim (gwerthuso effaith). Mae'r rhain yn cynnwys plant ysgol, dysgwyr mewn lleoliadau addysg bellach, ac unrhyw un sy'n defnyddio cynhyrchion mislif mewn lleoliadau cymunedol, yn benodol cymunedau heb wasanaethau digonol.[6]
- Darparu gwybodaeth ac argymhellion ar gyfer:
  - Y broses o ddarparu grantiau yn y dyfodol ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a hybiau cymunedol.
  - Gwelliannau i'r rhaglen a all gynnig effeithiau cadarnhaol i blant a phobl ifanc, y rhai ar incwm isel a chymunedau sydd heb wasanaethau digidol.

Cafodd y rhaglen ei mesur yn erbyn y set ganlynol o ganlyniadau:

- Gall dysgwyr a'r rhai ar incwm isel **gael cynhyrchion mislif am ddim yn hawdd.**
- Mae dysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn **llai tebygol o brofi amhariad** gan eu mislif ac mae eu **profiadau o fislif yn well**.
- Mae dysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn **fwy gwybodus** a **hyderus** wrth ddefnyddio **cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio / di-blastig.**
- Mae'r **stigmâu a'r tabŵs** ynghylch y mislif wedi cael eu **lleihau.**
- Mae cynhyrchion am ddim a gwybodaeth am y mislif wedi'u **dyrannu'n gywir ac yn effeithiol** ar draws ysgolion, sefydliadau addysg bellach a lleoliadau cymunedol eraill yng Nghymru.

Er mwyn mynd i'r afael â'r canlyniadau, datblygwyd cyfres o gwestiynau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad. Datblygwyd damcaniaeth newid rhaglen i ddeall sut roedd y rhaglen yn bwriadu gweithio a'r canlyniadau a ddymunir a'r effeithiau tymor hwy. Mae'r ddau wedi'u rhestru isod.

[6] Gan gynnwys cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl anabl a chymunedau LHDTC+.

**Cwestiynau ymchwil allweddol a osodwyd ar gyfer y gwerthusiad:**

1. Sut mae dysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn cael gafael ar gynhyrchion mislif am ddim yn hawdd?
2. Sut mae'r grant wedi arwain at ddysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn fwy gwybodus a hyderus wrth ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a/neu heb blastig?
3. Pa effaith mae'r cynhyrchion am ddim a'r wybodaeth wedi'i chael ar lefelau presenoldeb?
4. Sut mae'r grant wedi arwain at leihad mewn stigmâu a thabŵau sy'n gysylltiedig â mislif?
5. Sut mae cyllid, gwybodaeth a chynhyrchion mislif am ddim wedi cael eu dyrannu a'u dosbarthu i'r rhai sydd ei angen fwyaf ledled Cymru?
6. Beth yw canlyniadau cadarnhaol neu negyddol anfwriadol y grant

**Theori Newid:**

**Rhesymeg:** Mae'r diffyg cynhyrchion mislif am ddim, ochr yn ochr â'r tabŵs a'r diffyg addysg ynghylch y mislif wedi cael nifer o effeithiau diriaethol, negyddol i bobl sy'n eu profi yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

**Amcanion:** Rhoi diwedd ar unrhyw ymdeimlad o stigma a chywilydd sy'n gysylltiedig â'r mislif; normaleiddio profiad pobl tra hefyd yn cydnabod y gofid a'r boen a ddioddefir gan y rhai nad yw eu mislif yn "normal" trwy ddarparu cynhyrchion mislif am ddim.

**Mewnbynnau:**

- Staff / tîm grantiau Llywodraeth Cymru
- Cyllid o £
- 22 Awdurdod Lleol, 13 sefydliad addysg bellach / colegau, Hybiau cymunedol, Ysgolion cynradd ac uwchradd
- Athrawon / staff addysgol eraill
- Myfyrwyr, pobl ifanc a phobl ar incwm isel
- Cynhyrchion mislif a phartneriaid dosbarthu
- Adnoddau addysgol ar gynhyrchion ecogyfeillgar
- Gwerthuswr

**Gweithgareddau:**

- Ceisiadau grantiau a dyfarnu
- Hyrwyddo cynhyrchion mislif am ddim
- Cyflwyno gweithdai/adnoddau addysgol
- Lledaenu cynhyrchion mislif am ddim
- Gweithio ar y cyd drwy sesiynau Bwrdd Crwn a chyfarfodydd gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill
- Ffurflenni monitro chwarterol

**Allbynnau:**

- Nifer a math o ddysgwyr a'r rhai ar incwm isel:
  - Defnyddio cynhyrchion mislif am ddim a chynhyrchion ecogyfeillgar
  - Wynebu llai o rwystrau i gael cynhyrchion mislif am ddim
  - Gwell cyllid drwy beidio â gorfod gwario arian ar gynhyrchion mislif
  - Llai tebygol o golli ysgol, gwaith neu weithgareddau cymdeithasol oherwydd eu mislif
  - Cael profiadau gwell gyda chael mislif
  - Bod yn fwy gwybodus a hyderus wrth ddefnyddio cynhyrchion ecogyfeillgar
  - Yn fwy abl i siarad yn agored, gwell hyder a phrofi llai o gywilydd am eu mislif
- Nifer y bobl sy'n wynebu tlodi a'r rhai o gymunedau heb wasanaethau digonol sy'n derbyn cefnogaeth
- Faint o gyllid, cynhyrchion a gwybodaeth a ddosbarthwyd
- Sefydliadau sy'n fwy gwybodus am eu grant a'u rôl wrth fynd i'r afael ag Urddas Mislif

**Canlyniadau:**

O1: Gall dysgwyr a'r rhai ar incwm isel gael gafael ar gynhyrchion mislif am ddim yn hawdd
O2: Mae dysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn llai tebygol o brofi amhariad gan eu mislif ac mae eu profiadau o fislif yn well.
O3: Mae dysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn fwy gwybodus a hyderus wrth ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio / di-blastig
O4: Mae'r stigmâu a'r tabŵs ynghylch y mislif wedi cael eu lleihau
O5: Mae cynhyrchion am ddim a gwybodaeth am y mislif wedi'u dyrannu'n gywir ac yn effeithiol ar draws ysgolion, sefydliadau addysg bellach a lleoliadau cymunedol eraill yng Nghymru

**Effaith tymor hwy:**

- Mae mislif wedi'i normaleiddio, gan wella'r rhagolygon ar gyfer pobl ifanc a'r rhai ar incwm isel
- Mae cynhyrchion mislif am ddim gan gynnwys cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a/neu gynhyrchion mislif di-blastig ar gael yn hawdd i'r rhai sydd eu hangen ledled Cymru

## 3.2 Gweithgareddau gwerthuso

### 3.2.1 Dull casglu data

Defnyddiodd y gwerthusiad dulliau cymysg, gan gasglu data ansoddol a meintiol sylfaenol, ochr yn ochr â'r dadansoddiad o ddata monitro eilaidd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Dyluniwyd yr holl offer casglu data a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil gan y gwerthuswr a oedd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac roeddent yn cyd-fynd â'r cwestiynau ymchwil allweddol a osodwyd ar gyfer y gwerthusiad. Fe wnaeth y gwerthusiad hefyd ddarparu adolygiad cyflym o lenyddiaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith gwerthuso a mewnwelediadau o'r canfyddiadau.

Dyma'r dull gweithredu ar gyfer y gweithgareddau:

**Adolygiad cyflym o lenyddiaeth:**

Cynhaliwyd adolygiad cyflym o lenyddiaeth cyn y broses o gasglu data gwerthuso er mwyn deall y cyd-destun ehangach sy'n gysylltiedig â thlodi mislif ac urddas mislif. Adolygwyd cyfanswm o 32 o ffynonellau llenyddiaeth o 2017 ymlaen. Mae canfyddiadau'r adolygiad wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad hwn. Defnyddiwyd methodoleg chwilio sy'n defnyddio'r cyfeiriadau mewn llenyddiaeth a adolygwyd fel rhan o'r strategaeth chwilio. Isod mae'n crynhoi'r pwnc, grwpiau targed, termau chwilio a rheolaeth ar gyfer yr adolygiad:

| | |
|---|---|
| Pwnc: | • Tlodi ac urddas mislif |
| Unrhyw grwpiau targed penodol: | • Myfyrwyr cynradd, uwchradd a sefydliadau addysg bellach<br>• Cymunedau heb wasanaethau digonol (pobl ar incwm isel, cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Pobl Anabl, cymunedau LHDTCI+ a Cheiswyr Lloches a Ffoaduriaid)<br>• Awdurdodau lleol, hybiau cymunedol a staff mewn sefydliadau addysgol |
| Termau chwilio: | • Urddas mislif<br>• Tlodi mislif<br>• Grantiau<br>• Cymunedau ar y cyrion NEU heb wasanaethau digonol<br>• Grwpiau lleiafrifoedd ethnig<br>• Lefel isel o incwm NEU amddifadedd<br>• Gwledig<br>• Effaith economaidd |
| Rheoli chwilio: | • Tystiolaeth wedi'i darparu gan Lywodraeth Cymru<br>• Google<br>• Blogiau gwe |

- Cyfnodolion SAGE

**Cyfweliadau manwl a thrafodaethau grŵp:**

Cynhaliwyd cyfweliadau un-i-un manwl a thrafodaethau grŵp gyda sefydliadau dros y ffôn neu ar-lein trwy Microsoft Teams/Zoom. Gellir gweld y canllawiau trafod a ddefnyddiwyd yn Atodiad A. Isod mae'n cyflwyno'r dull recriwtio a samplu a ddefnyddiwyd, ochr yn ochr â'r heriau a brofwyd:

| Rhanddeiliaid | Dull recriwtio | Dull samplu | Heriau |
|---|---|---|---|
| Cyfweliad cyn-cwmpasu gydag awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach | • Aelodau ar y grŵp Llywio Urddas Mislif wnaeth gydsynio i roi adborth. | Samplu bwriadol gyda blaenoriaeth ar gyfer dethol yn seiliedig ar gael adborth gan sefydliadau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig a threfol ac wedi'u gwasgaru ledled Cymru. | Amh. |
| Awdurdod lleol, sefydliad addysg bellach, ysgolion a lleoliadau cymunedol | • Cafodd sefydliadau eu recriwtio i gymryd rhan yn y cyfweliad manwl a / trafodaeth grŵp drwy'r arolwg ar-lein.<br>• Fe wnaeth Llywodraeth Cymru estyn allan i ysgolion (unwaith y cyflawnwyd camau streic a gymerwyd gan staff addysgu ym mis Mawrth 2023) i ofyn a fyddent yn fodlon rhoi adborth. | Samplu bwriadol gyda blaenoriaeth ar gyfer dethol yn seiliedig ar y canlynol:<br>• Cyfanswm y cyllid sydd wedi'i hawlio (Awdurdod Lleol): Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe<br>• Lefelau uwch o amddifadedd yn seiliedig ar ddata cod post yr ysgol: fel uchod, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili<br>• Natur Wledig: Gwynedd, Powys, Ynys Môn | • Adeg y gwerthusiad, roedd ysgolion dan bwysau e.e. streiciau athrawon. Felly, fe wnaeth y gwerthusiad ei chael hi'n anodd cael cynrychiolwyr i gymryd rhan. Felly, defnyddiwyd samplu cyfleustra yn seiliedig ar y canlynol:[7] |

Bwrdd trafod **cymunedol ar-lein** – cafodd defnyddwyr terfynol eu recriwtio i gymryd rhan mewn bwrdd trafod cymunedol ar-lein. Gofynnwyd i sefydliadau addysg bellach, ysgolion a lleoliadau cymunedol a oedd eisoes wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad p'un a ydynt yn fodlon cylchredeg y cyfle ymchwil cymunedol ar-lein i'w dysgwyr/pobl maen nhw'n eu cefnogi. Anfonwyd ffurflenni caniatâd papur ac ar-lein at yr holl sefydliadau uchod wnaeth gydsynio. Ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru ar gyfer yr ymchwil gymunedol ar-lein fynd

[7] Techneg samplu nad yw'n seiliedig ar debygolrwydd, mae cyfranogwyr eu dewis yn seiliedig ar eu hygyrchedd a'u parodrwydd i gymryd rhan yn hytrach na'u haddasrwydd h.y. nodweddion

heibio, cafodd cyfranogwyr eu dewis ar hap a'u hysbysu eu bod nhw wedi cael eu dewis i gymryd rhan.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr gwblhau 7 tasg a gymerodd tua 40 munud i'w cwblhau i gyd. (Gellir gweld enghreifftiau gweledol o'r bwrdd yn Atodiad B). Roedd dau safonwr o MEL Research ar gael yn ystod oriau swyddfa i ymgysylltu â chyfranogwyr a gofyn cwestiynau. Roedd y bwrdd cymunedol ar agor am gyfnod o 3 diwrnod, gan alluogi ymatebwyr i gwblhau'r gweithgareddau yn eu hamser eu hunain. Roedd 23 o ddefnyddwyr terfynol a roddodd adborth o fewn yr ystod oedran 16-30, gyda llond llaw (n=3) o dan 16 mlwydd oed. Roedd y rhan fwyaf ohonynt mewn addysg, gyda rhai o'r cyfranogwyr hŷn mewn gwaith.

**Arolwg meintiol:** Defnyddiodd y gwerthusiad arolwg byr hefyd er mwyn i ddefnyddwyr terfynol ei gwblhau. Gall cyfranogwyr gwblhau'r arolwg ar-lein neu ar bapur. Dosbarthwyd arolwg ar-lein mwy manwl gyda sefydliadau a oedd wedi bod yn rhan o'r grant / wedi derbyn cynhyrchion mislif am ddim (gellir gweld yr arolygon yn Atodiad C). Roedd y dull recriwtio yn amrywio yn dibynnu ar y math o randdeiliaid. Isod mae crynodeb o’r dull recriwtio, dull ar gyfer pob math o randdeiliaid:

| Rhanddeiliaid | Dull recriwtio | Dull samplu |
|---|---|---|
| Awdurdod lleol a sefydliad addysg bellach | • Anfonodd Llywodraeth Cymru e-bost cychwynnol i gyflwyno'r gwerthuswyr a'r ymchwil.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu rhestrau cyswllt (sefydliad, enw a chyfeiriad e-bost) drwy Objective Connect i MEL Research ar gyfer pob Arweinydd Urddas Mislif sy'n ymwneud â'r Grant Urddas Mislif.<br>• Anfonodd gwerthuswyr e-bost i bob cyswllt gyda dolen i'r arolwg ar-lein a gwybodaeth am sut i gymryd rhan. | • Samplu ar hap syml (samplu tebygolrwydd) |
| Ysgolion a lleoliadau cymunedol | • Cafwyd caniatâd gan sefydliadau sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg ar-lein (uchod) i hyrwyddo dolen yr arolygu gyda’u hysgolion a'r lleoliad cymunedol yr oeddent wedi darparu'r grant iddynt. | • Cyfuniad o samplu ar hap syml (samplu tebygolrwydd) a samplu pêl eira (samplu nad yw'n seiliedig ar debygolrwydd) |
| Defnyddwyr terfynol | • Cafwyd caniatâd gan sefydliadau sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg ar-lein (uchod) i hyrwyddo dolen yr arolwg gyda'r dysgwyr a'r rhai a gyrchodd eu gwasanaethau ar ein rhan. Yna dosbarthodd y gwerthuswyr y dolenni i'r cynrychiolydd sydd wedi cydsynio i ddosbarthu'r ddolen, darparu cod QR ac anfon unrhyw geisiadau am arolygon papur yn uniongyrchol i sefydliadau.<br>Er mwyn gwella cyfraddau ymateb ymhellach:<br>• Fe wnaeth Llywodraeth Cymru estyn allan at eu Timau Ymchwil Ysgolion a'r Arweinwyr Urddas Mislif ym mhob awdurdod lleol i'w hannog i hyrwyddo'r arolwg. | |

- Hyrwyddodd awdurdodau lleol yr arolwg ar y cyfryngau cymdeithasol, gweithleoedd a hysbysfyrddau

**Data eilaidd:** Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu ffurflenni monitro gan sefydliadau o gyfnodau ariannu grant 2017/18 i gyfnodau ariannu grant 2021/22. Cofnodwyd y data o bob ffurflen fonitro mewn un daenlen. Dylid nodi bod cyfyngiadau i gasglu'r wybodaeth hon gan fod anghysondebau yn y data a ddarperir ar draws ardaloedd yr awdurdod lleol. Amlygir hyn ymhellach ym mhrif gorff yr adroddiad. (Gellir gweld enghraifft o'r monitro yn Atodiad D).

**Tabl 1: Crynodeb o'r gweithgareddau gwerthuso a nifer y cyfranogwyr wnaeth gymryd rhan.**

| Dull casglu data | Math o randdeiliaid | Cyfanswm y boblogaeth wnaeth gydsynio | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|---|---|
| Cyfweliadau manwl cyn-cwmpasu 1:1[8] | Cyffredinol | 14 | 8 |
| | Awdurdodau lleol | 7 | 5 |
| | Sefydliadau Addysg Bellach | 7 | 3 |
| Cyfweliadau manwl 1:1 neu grŵp | Cyffredinol | 53 | 34 |
| | Awdurdodau lleol | 19 | 15 |
| | Ysgolion (cynradd / uwchradd) | 20 | 11 |
| | Lleoliadau cymunedol | 14 | 8 |
| Bwrdd trafod cymunedol ar-lein | Defnyddwyr terfynol cynhyrchion mislif | 90 | 26 |
| Arolwg ar-lein / papur gyda defnyddwyr terfynol | Defnyddwyr terfynol cynhyrchion mislif | Anhysbys | 207 |
| Arolwg ar-lein gyda sefydliadau | Cyffredinol | | 129 |
| | Awdurdodau lleol | 22 | 24[9] |
| | Sefydliadau Addysg Bellach | 13 | 12[10] |
| | Ysgolion (cynradd / uwchradd) | 1,382 | 51[11] |
| | *Ysgol gynradd* | *1,177* | *30* |
| | *Ysgol uwchradd* | *205* | *22[12]* |
| | Lleoliadau cymunedol | 2,857 | 42[13] |

## 3.3 Dadansoddi ac adrodd

[8] Cynhaliwyd cyfweliad manwl cyn-cwmpasu ar ddechrau'r gwerthusiad i fwydo i mewn i ddatblygiad y rownd nesaf o ddarpariaethau grant.
[9] Ar draws 17 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru
[10] Ar draws 10 o'r 13 sefydliad addysg bellach yng Nghymru
[11] Ar draws pob un o'r 1,382 o ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru.
[12] Roedd un sefydliad yn cael ei gyfrif fel ysgol gynradd ac uwchradd
[13] Yn seiliedig ar amcangyfrif o 2,857 o leoliadau cymunedol a dderbyniodd gyllid rhwng 2018-2023

### 3.3.1 Dibynadwyedd ystadegol ymchwil feintiol

Mae canfyddiadau'r arolwg yn seiliedig ar ganlyniadau sampl fach o sefydliadau a defnyddwyr, gan gynnig cipolwg ar safbwyntiau. Lle trafodwyd dadansoddiad gan wahanol is-grwpiau yn yr adroddiad hwn, bydd y canfyddiadau'n ddangosol yn unig gan nad oedd hwn yn sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth darged. Felly, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau.

Cynhaliwyd dadansoddiad sbardunau allweddol (KDA) i dynnu sylw at ba agweddau, er enghraifft, mynediad haws at gynhyrchion mislif am ddim, arbed arian, ac ati, a gafodd yr effaith fwyaf ar ddefnyddwyr a oedd yn profi mislif gwell o ganlyniad i'r cynhyrchion mislif am ddim / gwybodaeth a ddarparwyd. Mae’r prawf ystadegol sy'n archwilio'r gydberthynas rhwng pob agwedd a ofynnir (newidynnau annibynnol), gan greu'r cyfuniad gorau i ragfynegi’r cytundeb cyffredinol (newidyn dibynnol). Mae KDA yn darparu gwerth R-sgwâr wedi'i addasu sy'n dangos pa mor dda mae'r newidynnau annibynnol yn rhagfynegi’r newidyn dibynnol. Mae hyn wedyn yn rhoi gwerth perfformiad sy'n cael ei gymharu yn erbyn gwerth y cytundeb. Os yw gwerth perfformiad newidyn yn agos at 1, yna mae'n sbardun cryf ar gyfer profiad cyffredinol. Os yw'r gwerth yn agos at 0, yna mae'n sbardun gwan ar gyfer profiad cyffredinol.

Oherwydd talgrynnu'r rhifau, efallai na fydd canrannau sy'n cael eu harddangos yn weledol ar siartiau yn yr adroddiad hwn bob amser yn gwneud cyfanswm o 100% a gallant fod ychydig yn wahanol o'u cymharu â'r testun. Dylid defnyddio'r ffigurau a ddarperir yn y testun bob amser. Lle nad yw'r ffigurau'n ymddangos mewn siart, mae'r rhain yn 3% neu lai. Mae'r ffigur 'sylfaen' neu 'n=' y cyfeirir ato ym mhob siart a thabl yn nodi cyfanswm nifer y cyfranogwyr sy'n ymateb i'r cwestiwn gydag ymateb dilys.

### 3.3.2 Canfyddiadau ymchwil ansoddol

Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau ansoddol a thrafodaethau grŵp gyda chyfranogwyr sy'n cydsynio ac fe'u cofnodwyd yn ddigidol, yna eu rhoi mewn grid dadansoddi thematig i'w archwilio ymhellach. Ar ôl eu dadansoddi fe'u dilëwyd. Yna nodwyd themâu a chanfyddiadau allweddol ar gyfer pob un o'r cwestiynau ymchwil allweddol, gan ddwyn ynghyd y data meintiol ac ansoddol yn erbyn pob nod gwerthuso a chwestiwn ymchwil.

Drwy gydol yr adroddiad, defnyddiwyd astudiaethau achos bach i ddangos effeithiau unigol y cynhyrchion am ddim a'r wybodaeth a ddarparwyd trwy'r grant. Mae'r enwau sydd wedi’u rhestru yn ddychmygol.

### 3.3.3 Ystyriaethau eraill

Er ein bod ni wedi ymgymryd â gweithgareddau ymchwil, mesurwyd effaith y grant trwy ymddygiadau hunangofnodedig yn unig. Nid oedd unrhyw arsylwadau dilysu annibynnol, felly mae'r dystiolaeth yn gynhenid gyfyngedig.

Nid oedd y rhaglen yn cynnwys grŵp rheoli (casglu data gan bobl nad oeddent yn ymgysylltu â'r rhaglen grant) er mwyn darparu tystiolaeth wrth-ffeithiol i asesu canlyniadau yn ei herbyn.

# 4. Canfyddiadau gwerthuso

## 4.1 Effeithiolrwydd y broses ariannu a lledaenu


### 4.1.1 <u>Cwestiwn ymchwil allweddol 1:</u> Sut mae dysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn cael gafael ar gynhyrchion mislif am ddim yn hawdd?

#### 4.1.1.1 Pa gefnogaeth a ddarparwyd gan sefydliadau cyn y grant?

Er mwyn deall effaith y grant yn well, fe wnaethom ni ofyn i sefydliadau pa gefnogaeth roedden nhw'n ei rhoi i fenywod, merched a phobl sy'n cael mislif cyn y grant. Dywedodd traean (32%, n=41) nad oeddent yn cynnig unrhyw gefnogaeth, tra dywedodd 38% (n=49) eu bod nhw'n cynnig cynhyrchion mislif am ddim, er nad oedd y rhain yn cynnwys opsiynau ecogyfeillgar. Roedd sefydliadau hefyd yn cynnig gwybodaeth i'r rhai oedd yn cael mislif ac nad oeddent yn cael mislif cyn y grant. Roedd awdurdodau lleol a lleoliadau cymunedol yn llai tebygol o fod wedi cynnig unrhyw gymorth i bobl cyn y grant.

**Siart 2: Cyn y Grant Urddas Mislif, sut wnaeth eich sefydliad gefnogi pobl sy'n cael mislif?**

*(n=129)*




*(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)*

### 4.1.2 Mathau o sefydliadau / pobl sy'n manteisio ar y grant ac yn cael eu cefnogi drwy'r grant

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y sefydliadau mae awdurdodau lleol wedi eu cefnogi drwy'r grant[14]. Nid oedd data monitro ar gael ac felly defnyddiwyd **ymatebion yr arolwg** gan 16 awdurdod lleol i ddarparu'r ffigurau hyn. Darparwyd cymedr i roi cipolwg ar y lleoliadau cynradd, uwchradd a chymunedol sy'n cael eu cefnogi ar draws yr 16 ardal awdurdod lleol a ymatebodd i'r arolwg. Ar gyfartaledd, mae cyfran yr ysgolion cynradd ac uwchradd ac yn fwyaf nodedig lleoliadau cymunedol mae awdurdodau lleol wedi'u cefnogi, wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r cyllid ddechrau yn 2017/18. Er bod angen mwy o waith i gyrraedd mwy o leoliadau cymunedol yng Nghymru, yn 2020 adroddwyd bod 8,100 o elusennau cofrestredig a 32,000 o sefydliadau'r trydydd sector yn gweithredu yng Nghymru[15]. Yn ogystal, i'r isod, derbyniodd pob un o'r 13 o sefydliadau addysg bellach ledled Cymru arian grant ers 2019.

**Tabl 2: Nifer cyfartalog o sefydliadau cynradd, uwchradd a/neu sefydliadau cymunedol mae awdurdodau lleol wedi cefnogi drwy'r Grant Urddas Mislif drwy'r cyfnod ariannu**

*(ffigurau yn seiliedig ar 16 awdurdod lleol a roddodd adborth i'r cwestiwn hwn)*

| Cyfnod ariannu | Ysgolion cynradd* | Ysgolion uwchradd* | Lleoliadau cymunedol |
|---|---|---|---|
| 2017/18 | 249 | 52 | 6 |
| 2018/19 | 180 | 48 | 24 |
| 2019/20 | 433 | 82 | 105 |
| 2020/21 | 479 | 98 | 123 |
| 2021/22 | 472 | 98 | 280 |
| 2022/23 | 581 | 111 | 412 |

**Ar hyn o bryd mae 1,382 o ysgolion cyfun (n=27), cynradd (n=1,177) ac uwchradd (n=178) yng Nghymru*

(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)


Wrth edrych ar y grwpiau o bobl oedd yn cael eu cefnogi drwy'r grant, dywedodd y rhan fwyaf o'r sefydliadau (ac eithrio awdurdodau lleol) eu bod nhw'n cefnogi pobl oedd yn llai tebygol o gael mynediad rheolaidd i gynhyrchion mislif, fel y rhai sy'n wynebu tlodi neu bobl anabl. Mae menywod, merched a phobl anabl sy'n cael mislif yn wynebu hyd yn oed mwy o heriau wrth reoli eu mislif yn lanwaith a gydag urddas na'r rhai nad ydynt yn anabl. Yn aml mae diffyg cyfleusterau o fewn toiledau ac ystafelloedd ymolchi iddyn nhw ddelio â mislif ag

[14] Yn seiliedig ar 16 awdurdod lleol a roddodd adborth i'r cwestiwn hwn
[15] Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Data allweddol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru 2020

urddas[16]. Dywedodd chwech o bob deg sefydliad (59%, n=62) eu bod nhw'n gwasanaethu / cefnogi pobl sy'n byw mewn cartrefi ag incwm isel, ac yna traean (33%, n=35)) sydd â nam neu angen iechyd hirdymor. Dywedodd tua thraean (30%, n=31) o sefydliadau eu bod nhw'n cefnogi neu'n gwasanaethu pob un o'r grwpiau a restrir (Siart 3).

**Siart 3: Ydych chi'n cefnogi unrhyw rai o'r grwpiau canlynol o bobl?**

*(n=105)*




(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

Dywedodd 34 o ymatebwyr (32%) hefyd eu bod nhw'n cefnogi grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a oedd yn fwy tebygol o fod o grŵp ethnig cymysg neu luosog (n=27), fel y nodir yn Nhabl 3.

**Tabl 3: Pa grwpiau ethnig lleiafrifol ydych chi'n eu cefnogi?**

*(n=34)*

| | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Grwpiau ethnig lluosog neu gymysg | 27 | 79% |
| Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 13 | 38% |
| Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig | 12 | 35% |
| Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig neu Roma | 3 | 9% |
| Grŵp lleiafrifoedd ethnig arall | 2 | 6% |
| **Cyfanswm** | **34** | **100%** |

(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

[16] Menstrual Health & Hygiene for Girls and Women with Disabilities


### 4.1.3 Ymwybyddiaeth a chymhellion i ddefnyddio cynhyrchion mislif am ddim

Dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr terfynol a roddodd adborth trwy'r arolwg (Siart 4) eu bod yn ymwybodol o'r cynhyrchion mislif am ddim a gynigir, a dim ond 7% (n=15) nad oedd yn ymwybodol. Fe wnaeth y rhan fwyaf o ddefnyddwyr terfynol a roddodd adborth drwy'r gwaith manwl glywed am y cynhyrchion mislif am ddim trwy nifer o sianeli, fel bod y cynhyrchion yn hawdd eu cael ac yn weladwy – *“maen nhw ym mhob ystafell ymolchi yn y coleg i unrhyw un eu defnyddio"*; trwy ddeunyddiau printiedig – *“mae arwyddion a phosteri yn dweud eu bod nhw am ddim o amgylch y coleg i gyd"*; a thrwy negeseuon uniongyrchol gan aelodau staff – *"Anfonodd fy ngholeg e-byst allan ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn rhoi gwybod i fyfyrwyr bod cynhyrchion mislif am ddim ar gael yn yr ystafelloedd ymolchi."* [Defnyddiwr terfynol]

Cafodd y rheswm pam roedd pobl yn cyrchu'r cynhyrchion mislif am ddim ei archwilio. Dywedodd chwech o bob deg (57%, n=118) eu bod nhw’n defnyddio'r cynhyrchion mislif am ddim gan nad oedd ganddyn nhw’r cynhyrchion roedden nhw eu hangen gyda nhw ar y diwrnod. Dywedodd un o bob pump arall (22%, n=45) eu bod nhw naill ai'n ei chael hi'n anodd cael cynhyrchion neu ddim yn hoffi gofyn i'w teulu am gynhyrchion (Siart 4). Dangosodd y gwaith manwl fod defnyddwyr terfynol yn debygol o ddefnyddio'r cynhyrchion mislif am ddim bob tro roedd ganddynt gyfnod, neu eu bod yn defnyddio'r cynhyrchion mislif am ddim weithiau h.y., bob cwpl o fisoedd neu pan fo angen.

**Siart 4: Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ydych chi wedi manteisio ar, ac os felly, pam ydych chi wedi bod angen manteisio ar gynhyrchion mislif am ddim o'ch ysgol/sefydliad addysg bellach neu leoliad cymunedol?**

*(n=207)*





(Arolwg gwerthuso Urddas Mislif defnyddwyr terfynol 2023)

### 4.1.4 Sut roedd sefydliadau yn gwneud pobl yn ymwybodol ac yn dosbarthu cynhyrchion mislif am ddim

Roedd sefydliadau a roddodd adborth trwy'r arolwg yn hyrwyddo cynhyrchion mislif am ddim yn fwyaf cyffredin trwy sgyrsiau addysgol (51%, n=66), posteri (43%, n=55), cyfarfodydd grŵp (42%, n=54) neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol (40%, n=52) (Siart 5). Roedd amrywiadau yn ôl math sefydliadol – roedd sefydliadau addysg bellach yn fwy tebygol o hyrwyddo cynhyrchion mislif am ddim drwy bosteri a thaflenni – *"Mae gennym ni bosteri yn y toiled am gynhyrchion mislif am ddim, hefyd cawsom wythnos urddas mislif"* [Defnyddiwr terfynol]. Roedd ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio sesiynau addysgol yn bennaf (75%, n=39). Roedd lleoliadau cymunedol ac awdurdodau lleol yn defnyddio cymysgedd o ddulliau hyrwyddo. Amlygodd yr ymchwil fanwl sut roedd y grant wedi caniatáu ymgysylltu'n uniongyrchol â dysgwyr a rhieni a phwysigrwydd cael staff o fewn sefydliadau sy'n gallu hyrwyddo'r cysyniad o urddas mislif a chynhyrchion am ddim sydd ar gael – *"rydym ni'n gallu hyrwyddo urddas mislif gyda phlant ysgol a hefyd gyda rhieni mewn teuluoedd incwm isel yn bennaf. Mae hyn wedi gweithio'n arbennig o dda."* [Awdurdod lleol]

Fe wnaeth hyfforddiant ac addysg weithio'n dda i rai sefydliadau, er enghraifft, roedd ysgolion yn brin o adnoddau yn yr adran hon, ond roedd rhai yn teimlo bod hyn o werth mwy gan fod ganddyn nhw ddigon o stoc o gynhyrchion mislif – *"maen nhw [yr ysgolion] yn gwerthfawrogi peidio gorfod cadw cymaint o stoc ar y safle a'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc, ac maen nhw hefyd yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a'r pecynnau ychwanegol sy'n mynd i mewn i'r gefnogaeth y gallwn ei gynnig."* [Awdurdod lleol].

**Siart 5: Hyrwyddo / codi ymwybyddiaeth o'r cynhyrchion mislif am ddim sydd ar gael** *(n=129)*





(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

Gofynnwyd i sefydliadau ym mha ffyrdd eraill maen nhw wedi cefnogi pobl gyda'r cyllid a gawsant, heblaw am ddarparu cynhyrchion mislif am ddim. Dywedodd bron i chwech o bob deg (57%, n=73) eu bod nhw wedi darparu gwybodaeth gyffredinol fel posteri – *"Mae posteri ar y drysau"* [Ysgol uwchradd]. Roedd bron i ddwy ran o bump (37%, n=48) wedi cynnig hyfforddiant ac addysg i bobl sy’n cael eu mislif ac roedd 23% (n=30) wedi darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a chynrychiolwyr cymunedol. Dywedodd tua un rhan o bump (22%, n=28) nad oedden nhw wedi darparu unrhyw fath arall o gefnogaeth – roedd y rhain yn fwy tebygol o fod yn lleoliadau cymunedol yn hytrach nag ysgolion, sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau lleol. Yn ehangach, mae angen gwaith allgymorth mwy cydlynol i ymgysylltu â lleoliadau cymunedol, gan ei bod yn ymddangos yn gyffredinol bod llai o ymwybyddiaeth er bod y diddordeb yn y rhaglen yn wych – *"Doeddwn i ddim wedi clywed mewn gwirionedd am y Grant Urddas Mislif cyn hyn"* [Sefydliad cymunedol]. Roedd un mudiad cymunedol yn teimlo bod angen i awdurdodau lleol edrych ar ba rwydweithiau a gweithgareddau llawr gwlad sy'n digwydd a sut y gallant gysylltu â'r rhain – *“Felly mae fel asesu pa asedau sydd gennych chi yn eich ardal leol"* [Sefydliad cymunedol].

**Siart 6: Ac eithrio cynnig cynhyrchion mislif am ddim, sut arall ydych chi wedi cefnogi pobl drwy'r cyllid y gwnaethoch chi ei dderbyn?**

*(n=129)*




*(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)*

### 4.1.5 Adolygiad o fodelau a ddefnyddir gan sefydliadau

Mae cynhyrchion mislif am ddim a ddarperir ar draws y gwahanol leoliadau yn galluogi pobl i gael cynhyrchion pan fyddan nhw eu hangen. Ystyrir bod gallu cael cynhyrchion mislif yn lleihau embaras, stigma, straen, pryder a risgiau iechyd, gan ganiatáu i fyfyrwyr aros mewn addysg a chymryd rhan mewn dysgu[17].

Fe wnaeth y gwerthusiad ganfod nad oedd model dull cyson o ran sut roedd yn ofynnol i sefydliadau ddarparu cynhyrchion mislif am ddim i'r bobl maen nhw'n eu cefnogi. Fodd bynnag, roedd tebygrwydd a dulliau gweithredu yr oedd sefydliadau'n teimlo eu bod wedi gweithio'n dda (Tabl 4).

Canfuwyd mai sicrhau bod **cynhyrchion mislif am ddim yn hawdd eu cael mewn toiledau** oedd y ffordd fwyaf cyffredin o bell ffordd o ddarparu eitemau ar draws sefydliadau – *"Mae dosbarthu cynhyrchion yn gweithio'n dda pan fydd ysgolion yn rhoi cynhyrchion mewn ciwbiclau toiled unigol, ond mae'r broses o ddosbarthu yn amrywio ar draws ysgolion."* [Awdurdod lleol]. Roedd hyn yn fwy felly ar gyfer cynhyrchion tafladwy fel tamponau a phadiau – "*Mae'r cyflenwr yn allweddol ar gyfer llwyddiant. Mae'r cyflenwr mewn toiled hygyrch; gall unrhyw un ddefnyddio'r toiled."* [Lleoliad cymunedol].

Yn aml, roedd eitemau y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu dosbarthu i bobl yn uniongyrchol, oherwydd bod y rhain yn ddrutach na chynhyrchion tafladwy, felly roedd angen rheoli dosbarthu. Gallai hyn gael effaith o bosib ar ba mor ymwybodol yw unigolion o gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio ac os ydyn nhw'n gofyn amdanyn nhw mewn gwirionedd – oherwydd eu bod nhw'n teimlo embaras.

[17] Katherine Swainston, Claire O'Malley, Vik Brown, (Mawrth 2020) The implementation and evaluation of a university-based scheme to reduce period poverty, (blog)

**Tabl 4: Trosolwg o fodelau cyffredin i ddosbarthu cynhyrchion mislif am ddim a chyfrannau sy'n nodi bod y dull hwn yn gweithio'n arbennig o dda**
*(n=121)*

| Modd dosbarthu | % sy'n nodi bod y dull hwn wedi gweithio'n arbennig o dda | |
|---|---|---|
| Hyrwyddo / darparu cynhyrchion am ddim mewn digwyddiadau | 25% | *"Hyrwyddo cynhyrchion cynaliadwy am ddim, ac addysg ar gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio mewn digwyddiadau Iechyd a Lles."* [Sefydliad addysg bellach] |
| Cynnig cynhyrchion mewn toiledau, ystafelloedd ymolchi | 22% | *"Mae pecynnau'n cael eu gosod ym mhob toiled gydag un bocs ar agor a bocsys sbâr wedi'u gosod mewn pentwr."* [Sefydliad addysg bellach]<br><br>*"Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws teimlo'n gyfforddus pan fyddwch ar eich mislif gan eich bod chi'n gwybod bod yna bethau rydych chi eu hangen ar gael i chi"* [Defnyddiwr terfynol] |
| Cynhyrchion ar gael yn am ddim mewn mannau cymunedol e.e. derbynfeydd, cynteddau | 14% | *"Mae cynhyrchion ar gael i bawb o'r dderbynfa, ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd dosbarth a thrwy ein banc gwisg ysgol."* [ysgol]<br><br>*"Mae'n dda bod hybiau cymunedol lleol yn rhoi rhai yn eu toiledau hefyd. Mae gan rai hyd yn oed flychau coch lle gallwch chi gasglu rhai."* [Defnyddiwr terfynol] |
| Postio cynhyrchion am ddim / gwasanaeth tanysgrifio | 8% | *"Rydym ni wedi gweld llwyddiant ysgubol gyda gwasanaeth tanysgrifio cynhyrchion mislif cynyddol. Mae hon yn ffordd arbennig o effeithiol o ddosbarthu cynhyrchion mewn ardal fel ein hun ni, sy'n cael ei heffeithio'n aruthrol gan natur wledig a gyda'r ardaloedd trefol lleiaf lle mae poblogaeth gywasgedig."* [Awdurdod lleol]<br><br>*"Mae fy nghynhyrchion mislif yn cael eu postio'n fisol i'r tŷ; mae hwn wedi bod yn fendith"* [Defnyddiwr terfynol] |
| Dosbarthu cynhyrchion am ddim mewn pecynnau eraill e.e. pecynnau banc bwyd | 7% | *"Mae'r ysgol yn dosbarthu cynhyrchion mislif i ddisgyblion ac rydym ni'n cynnig y cynhyrchion hyn yn ein banc bwyd sy'n cael ei ddefnyddio gan ein cymuned leol."* [ysgol] |

#### 4.1.6 Agweddau eraill ar y modelau a ddefnyddiwyd a weithiodd yn dda

- Mae cael unigolion ymroddedig mewn lleoliadau addysgol y gall dysgwyr fynd atynt pan fo angen, wedi cael ei werthfawrogi'n fawr gan staff a defnyddwyr terfynol – *"Maen nhw'n gwybod at ba aelodau o staff i fynd atynt, mae eu henwau ar y poster hefyd. Maen nhw hefyd yn cael y wybodaeth pan fyddant yn cael eu gwersi ar ddechrau'r flwyddyn. Ac maen nhw'n cael nodyn atgoffa bob hyn a hyn am bwy i fynd atynt os ydyn nhw am gasglu pethau"* [Ysgol uwchradd].
- Trwy hyfforddiant staff a chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol, roedd sefydliadau'n ceisio'n rhagweithiol i newid eu diwylliant a sut maen nhw wedi gweld a delio â mislif – *"Rydym ni wedi gwneud ymdrech go iawn i newid ein diwylliant a'n barn ar fislif – gan ei gwneud sgwrs fwy agored lle gall plant siarad â staff/y naill a'r llall yn agored amdano a chael gwared ar y tabŵ o'i gwmpas"* [Ysgol uwchradd]
- Cael nodiadau atgoffa rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i ddefnyddwyr terfynol, i bwysleisio'r gefnogaeth a'r cynhyrchion sydd ar gael – *"Maen nhw hefyd yn cael y wybodaeth pan maen nhw'n cael eu gwersi ddechrau'r flwyddyn. Ac maen nhw'n cael nodyn atgoffa bob hyn a hyn am bwy i fynd atynt os ydyn nhw am gasglu pethau"* [Sefydliad addysg bellach].
- Mae cyd-ddylunio a darparu cynnig cynhyrchion mislif am ddim yn gweithio'n dda e.e., drwy dîm dan arweiniad myfyrwyr – *"Mae llais y disgybl wedi bod yn hynod bwysig. Mae wedi arwain at sticeri cynnil ar giwbiclau toiled sy'n nodi lle mae cynhyrchion yn cael eu cadw sy'n caniatáu urddas i ddysgwyr. Mae hefyd wedi rhoi mewnwelediad i feysydd i'w datblygu, pa gynhyrchion mae pobl ifanc am eu gweld a phwysigrwydd urddas wrth gynnal cynhyrchion mewn meysydd lle nad oes angen i ddysgwyr ofyn amdanynt gan staff."* [Awdurdod lleol]. Mae timau dan arweiniad myfyrwyr sy'n rheoli cynhyrchion, yn osgoi'r angen i fyfyrwyr fynd at athrawon, sydd wedi bod yn gadarnhaol i fyfyrwyr, sy'n golygu y gall y rhai sydd fwyaf mewn angen (e.e., y rhai o gefndiroedd incwm isel) eu cael heb dynnu sylw atyn nhw eu hunain – "*Fe wnes i greu prosiect ar gyfer blwyddyn 12 fel rhan o'u cwrs Cymraeg [testun wedi'i dynnu] i weld a allen nhw gael mwy o reolaeth dros wariant y grant. Bryd hynny roedd awdurdod lleol xxx yn rhoi'r swm a ddyrannwyd i ni fesul plentyn, a rhoddwyd her i'r myfyrwyr feddwl am ffordd o sicrhau bod pobl yn cael mynediad y cynhyrchion roedden nhw'n ymwybodol ohonynt."* [Ysgol uwchradd]. Soniodd un cyfranogwr sut roedden nhw wedi bod yn gweithio gyda grŵp o fyfyrwyr traws yn datblygu leinin oedd yn ffitio'n well na leininau safonol er enghraifft – *"Mae wedi bod*

*yn rhywbeth sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran adborth gan fyfyrwyr a sicrhau ein bod yn gynhwysol."* [Ysgol uwchradd]. Mae gallu amrywio'r modelau cyflenwi ar draws safleoedd hefyd wedi helpu i reoli anghenion myfyrwyr, o gynnig cymorth mewn lleoliadau mwy agored i sgyrsiau cyfrinachol un i un – *"Mae'n newid meddylfryd ... mae angen i ni weithio arno. Wyddoch chi, mae gennym ni grwpiau cymysg. Mae'n rhaid i chi ei wneud yn y lle iawn."* [Ysgol uwchradd].

- Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y grant yn gweithio'n dda ar y cyfan i fyfyrwyr, er bod un sefydliad addysg bellach yn teimlo ei fod yn fwy o gyllid nag yr oeddent yn gallu ei reoli – *"Oherwydd mae'n gymaint o arian a dydw i ddim yn credu ei fod y gwerth gorau os ydw i'n hollol onest oherwydd dydw i ddim yn meddwl ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol"* [Sefydliad addysg bellach], ond gallai hyn fod oherwydd y modelau dosbarthu a ddefnyddir.
- Mae'r grant wedi bod yn fodd i gael pobl i siarad a gofyn cwestiynau am y mislif*, er enghraifft, mae'r cynhyrchion a gynigir, digwyddiadau a gynhelir mewn sefydliadau addysg bellach ac ati, wedi helpu pobl i ddechrau siarad yn fwy agored am fislif. Mae sefydliadau wedi gweld budd hyn ac felly fe'u hanogir i wneud mwy i gefnogi pobl drwy'r grant – "Gan fod mislif a'r cynhyrchion yn profi llai o stigmateiddio, ac yn cael ei normaleiddio'n fwy, dyma pam rydyn ni mor awyddus."* [Sefydliad addysg bellach]

### 4.1.7 Heriau

Dywedodd llond llaw o ysgolion uwchradd eu bod nhw'n gorfod monitro ac addysgu myfyrwyr oherwydd camddefnyddio cynhyrchion – "*Roedd ganddyn nhw broblemau gyda rhai myfyrwyr yn chwarae gyda'r tamponau er enghraifft, yn gweld faint o ddŵr maen nhw'n gallu ei gasglu."* [Ysgol uwchradd]. Fodd bynnag, dywedodd sefydliadau a adroddodd am hyn, ei bod yn hawdd delio â nhw drwy addysg.

Fe wnaeth cwpl o sefydliadau roi adborth yn dweud eu bod nhw'n teimlo bod y cyllid yn cael ei ddarparu'n hwyrach bob blwyddyn, a oedd yn effeithio ar eu hamser cyflawni – *"Yr heriau sydd gennym yw dyraniad y grant. Mae'n ymddangos bod yr amseriad yn ddiweddarach bob blwyddyn neu'n hwyrach yn y flwyddyn, sy'n lleihau'r amser gwario gwirioneddol ac mae angen i ni wneud y gwariant erbyn mis Mawrth."* [Ysgol]. Cafodd amseriad y grant effeithiau negyddol ar rai sefydliadau hefyd, a arweiniodd at bentyrru, gyda rhai yn argymell y dylid ystyried cyfnod ariannu hirach *"Mae amseru'r grant hefyd yn hanfodol ond yn aml rydym yn cael ein hunain yn pentyrru cynhyrchion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac yna'n aros am nifer o fisoedd cyn gallu prynu eto wrth i ni aros i'r grant newydd gael ei ffurfioli. Byddai cyllid tair blynedd yn hytrach na bob blwyddyn yn llawer mwy buddiol ac yn haws i'r awdurdodau lleol gynllunio'n briodol."* [Awdurdod lleol]

### 4.1.8 Y bylchau mewn cefnogaeth a/neu dderbyn cynhyrchion mislif am ddim sy'n bodoli ar gyfer cymunedau heb wasanaethau digonol

Mae mynediad at gynhyrchion mislif yn gyffredinol yn her i aelwydydd difreintiedig, bregus ac incwm isel.[18] Fe wnaeth sefydliadau roi adborth yn dweud mai gallu cael cynhyrchion mislif am ddim yn rheolaidd (35%, n=45), deall sut i ddefnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio (35%, n=45) a gallu golchi a glanhau cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio (29%, n=37) oedd y prif rwystrau ar gyfer cymunedau heb wasanaethau digonol, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu tlodi – *"Methu cynnig cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio gan fod y rhan fwyaf o'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu yn ddigartref neu mewn llety dros dro, felly mae angen gallu delio â phob cynnyrch yn hawdd neu ei waredu"* [Lleoliad cymunedol] (Siart 7).


Mae stigmâu diwylliannol sylweddol i rai cymunedau sy'n bodoli o hyd, megis cael eu gosod ar wahân gartref yn ystod eu mislif oherwydd rhagdybiaethau bod mislif yn amhur, bod mislif yn gysylltiedig ag ysbrydion drwg neu fod mislif yn fudr.[19] Roedd cydnabyddiaeth bod goresgyn stigmâu sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn angen cefnogaeth ehangach yn y gymuned i chwalu'r mythau sy'n gysylltiedig â’r mislif ac y bydd y broses hon yn cymryd amser – *"bydd yn cymryd amser i dorri'r stigma gyda rhai o'r cymunedau hyn oherwydd ei fod yn gymaint o dabŵ"* [Lleoliad cymunedol].

Trwy'r gwaith ansoddol gyda sefydliadau, canfuwyd bod angen darparu ar gyfer gwahanol ieithoedd cymunedol er mwyn ceisio goresgyn y rhwystrau hyn a mynediad at gymorth – *"Dydyn ni ddim yn disgwyl pethau ym mhob iaith, dim ond llenyddiaeth sylfaenol, hawdd ei deall sy'n cael ei chyfieithu."* [Lleoliad cymunedol].

[18] Mynediad at Gynhyrchion Mislif Cynllun Peilot Aberdeen: Adroddiad Gwerthuso (Mai 2018), Is-adran Dadansoddi Cymunedau, Llywodraeth yr Alban
[19] Shatakshi Jaiswal, Menstruation stigma and the importance of cultural representation, Breakthrough (Blog)


**Siart 7: Bylchau mewn cefnogaeth a / neu dderbyn cynhyrchion mislif am ddim**

*(n=129)*




(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

### 4.1.9 Yr ystod o gynhyrchion mislif am ddim a gynigir





Defnyddiwyd cyfuniad o ddata eilaidd a data meintiol sylfaenol i asesu'r ystod a'r math o gynhyrchion mislif am ddim a ddarperir fel rhan o'r Grant Urddas Mislif. Oherwydd anghysondebau yn y data monitro, rydym ni wedi dibynnu'n bennaf ar y data sylfaenol a gasglwyd trwy'r gwerthusiad.

Roedd wyth o bob deg sefydliad (81%, n=104) yn cynnig padiau mislif tafladwy – roedd hyn yn fwyaf tebygol o fod mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd bron i ddwy ran o dair (60%, n=78) yn cynnig padiau mislif tafladwy di-blastig – roedd hyn yn fwyaf tebygol o fod yn wir am awdurdodau lleol. Ar y cyfan, roedd 58% (n=75) yn cynnig padiau mislif y gellir eu hailddefnyddio ac roedd sefydliadau addysg bellach yn fwy tebygol o gynnig cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio, gan gynnwys dillad isaf mislif. Roedd ychydig llai na hanner (46%, n=59) yn cynnig cwpanau mislif h.y., cwpanau lleuad, ac roedd sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol yn fwy tueddol o gynnig hyn.

**Siart 8: Y math o gynhyrchion mislif am ddim a gynigir**

*(n=129)*




(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

Mae Tabl 5 drosodd yn dangos yr ystod o gynhyrchion mislif a brynwyd ac a gynigir o dan y grant ysgolion a chymunedol, wedi'u trefnu yn ôl awdurdod lleol (ac eithrio sefydliadau addysg bellach) (a gymerwyd o'r data monitro a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru). Ni fu'n bosibl adrodd ar nifer y cynhyrchion a brynwyd, oherwydd y diffyg data sydd ar gael, fodd bynnag, mae hwn yn rhoi trosolwg da o'r mathau o gynhyrchion sy'n cael eu darparu trwy'r grant. Nid yw'n syndod bod pob awdurdod lleol wedi prynu cynhyrchion mislif a / neu fwndeli pecyn mislif ar gyfer defnyddwyr terfynol. Roedd wyth o'r 22 awdurdod lleol yn cynnig dillad sbâr, 4 yn cynnig pecynnau golchi / cadachau ac roedd 2 wedi uwchraddio eu cyfleusterau ymolchi / toiled.

**Tabl 5: Amrywiaeth o gynhyrchion mislif a brynwyd yn ystod y cyfnod cyllido ysgolion a chymunedol**


| | Crynodeb o'r broses lledaenu yn ystod cyfnod 2023 yn seiliedig ar gyfweliadau ac ymatebion i'r arolwg | | | Amrywiaeth o gynhyrchion a ddarparwyd / a brynwyd yn ystod y cyfnod ariannu ysgolion a chymunedol rhwng 2017/18 a 2022* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Darparu cynhyrchion yn uniongyrchol | Cyllid uniongyrchol a ddarparwyd | Gwasanaeth tanysgrifio | Cynhyrchion mislif **** | Dillad isaf/dillad sbâr | Pecynnau/ bwndeli Mislif | Cyflenwyr cynhyrchion mislif | Bagiau gwaredu | Pecynnau / cadachau ymolchi |
| Ynys Môn | √ | | | √ | | √ | √ | | |
| Gwynedd | √ | √ | √ | √ | | √ | | | √ |
| Conwy | √* | | | √ | √ | √ | | | √ |
| Sir Ddinbych | √ | | √ | √ | | √ | | | |
| Sir y Fflint | | √ | | √ | | | | | |
| Wrecsam | √ | | | √ | | | √ | | |
| Powys | √ | | √ | √ | √ | √ | | | |
| Ceredigion | √ | | | √ | √ | | | | √ |
| Sir Benfro | | √*** | √ | | √ | | | √ | |
| Sir Gaerfyrddin | √ * | | | √ | | √ | | | √ |
| Abertawe | √ | √ | | √ | √ | √ | √ | √ | |
| Castell Nedd Port Talbot | √ | √ | | √ | √ | √ | √ | √ | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | √ | √ | √ | √ | √ | √ | | √ | √ |
| Bro Morgannwg | √ | | | √ | | √ | | | |
| Caerdydd | √ | | | √ | √ | √ | √ | √ | √ |
| Rhondda Cynon Taf | √ | | | √ | √ | √ | √ | | |
| Merthyr Tudful | √ | | | √ | √ | √ | √ | | |
| Caerffili | √ | | | √ | √ | √ | √ | √ | |
| Blaenau Gwent | √ | | | √ | | √ | √ | √ | |
| Torfaen | √ | | | √ | √ | √ | √ | √ | √ |
| Sir Fynwy | √** | | | √ | | | | | |
| Casnewydd | √ | | | √ | √ | √ | | | |

* Yn seiliedig ar adolygu ffurflenni hawliadau
** Mae'r Awdurdod yn edrych i weithio gyda grwpiau lloeren a fydd yn archebu / dosbarthu cynhyrchion ar eu rhan

*** Disgwyl iddo newid
**** e.e. cynhyrchion tafladwy ac y gellir eu hailddefnyddio: padiau, tamponau, dillad mislif ac ati

Gofynnwyd i sefydliadau pa mor aml roedd pobl maen nhw’n eu cefnogi yn cymryd cynhyrchion mislif am ddim. Mae Siart 9 yn dangos mai padiau mislif tafladwy sy’n cael eu cymryd amlaf, gyda saith o bob deg (69%) yn nodi 'yn aml'. Dilynwyd hyn gan badiau di-blastig ecogyfeillgar, gyda 58% yn datgan 'yn aml'. O'r holl gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio, roedd dillad isaf mislif yn cael eu cymryd amlaf (38%), o'i gymharu â dim ond 7% yn cymryd cwpanau mislif / cwpanau mislif – *"Bydd gennym tamponau a phadiau ar gael, efallai ei bod yn syniad i ddarparu pâr o ddillad isaf mislif i bob plentyn oedran mislif y gallant eu harchebu eu hunain yn y maint cywir ac yna efallai y byddai'n eu hannog i’w defnyddio."* [Defnyddiwr terfynol]

**Siart 9: Pa mor aml mae'r cynhyrchion mislif am ddim yn cael eu cymryd gan y bobl rydych chi'n eu cefnogi?**




(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

## 4.2 Cwestiwn ymchwil allweddol 2: Sut mae'r grant wedi arwain at ddysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn fwy gwybodus a hyderus wrth ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a/neu heb blastig?


### 4.2.1 Ymwybyddiaeth o gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a / neu gynhyrchion di-blastig

Erbyn 2027, nod Llywodraeth Cymru yw cael 90-100% o'r cynhyrchion mislif a ariennir gan y Grant Urddas Mislif i fod yn gynhyrchion sydd â llai o gynnwys plastig, llai o ddeunydd pacio plastig neu gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio.[20] Er mwyn deall i ba raddau yr oedd sefydliadau'n cyrraedd y targed hwn ar hyn o bryd, gofynnwyd iddynt yn ystod y cyfnod ariannu diwethaf (2022/23) pa gyfran o'r cyllid neu'r cynhyrchion a wariwyd ar gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a/neu gynhyrchion di-blastig. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cynnydd da yn cael ei wneud, gyda thua thraean (31%, n=26) yn nodi bod llai na 50% wedi'i wario ar gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a/neu gynhyrchion di-blastig, dwy ran o bump (41%, n=35) yn nodi o leiaf 50% ond llai na 90%, ac ychydig dros chwarter (28%, n=24) yn nodi mwy na 90% (Siart 10) – *"Rydyn ni nawr yn gallu cynnig cyfle i'r disgyblion ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio na fyddant efallai yn gallu eu fforddio eu hunain." [Ysgol].*

Gan nad oedd pob awdurdod lleol wedi cwblhau'r arolwg, aseswyd data monitro eilaidd ar gyfer cyfnod 2022/23 hefyd. O edrych ar ganran y grant a wariwyd ar gynhyrchion ecogyfeillgar ar gyfer awdurdodau lleol, defnyddiodd 10 o'r 22 awdurdod lleol >90% o'r grant ar gynhyrchion ecogyfeillgar, tra bod y 12 arall wedi defnyddio rhwng 65% a 90% o'r grant ar gynhyrchion ecogyfeillgar.

**Siart 10: Yn ystod cyfnod ariannu 2022/23, pa gyfran o'r cyllid / cynhyrchion a brynwyd gafodd ei wario ar gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a/neu gynhyrchion di-blastig?**

*(n=85)*





(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

[20] Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Urddas Mislif: fersiwn pobl ifanc

Darparwyd ystod eang o gynhyrchion ecogyfeillgar gan sefydliadau, a'r rhai a ddyfynnwyd fwyaf oedd padiau di-blastig (60%, n=78), padiau y gellir eu hailddefnyddio (58%, n=75) a dillad isaf mislif (53%, n=68). Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau rhwng y cynhyrchion a ddarparwyd gan sefydliadau a defnydd y cynhyrchion hyn gan ddefnyddwyr terfynol, gyda 48% (n=99) o ddefnyddwyr terfynol yn nodi nad ydynt wedi defnyddio unrhyw gynhyrchion ecogyfeillgar (Siart 11). Gan edrych ar y cynhyrchion ecogyfeillgar a ddefnyddiwyd, roedd yn well gan ddefnyddwyr terfynol ddefnyddio padiau mislif di-blastig allan o'r holl gynhyrchion ecogyfeillgar sydd ar gael. Mae hyn yn cael ei archwilio'n fanylach yn adran 3.2.2 sy'n edrych ar brofiadau defnyddwyr terfynol o ddefnyddio cynhyrchion ecogyfeillgar.

Siart 11: Pa gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a / neu ddi-blastig a ddarparwyd gennych / o'i gymharu â chynhyrchion a ddefnyddiwyd gan ddefnyddwyr terfynol




(Arolwg gwerthuso Urddas Mislif defnyddwyr terfynol 2023) a (Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

### 4.2.2 Profiadau pobl sy'n defnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a / neu gynhyrchion di-blastig


Ar draws y sefydliadau y buom ni'n siarad â nhw, roedd y rhan fwyaf yn teimlo nad oedd y cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a/neu ddi-blastig o'r un ansawdd – *"Doedden nhw ddim yn eu gweld cystal ac maen nhw ddwywaith y gost am gynhyrchion nad ydynt cystal"* [Lleoliad cymunedol]. Yn yr un modd, nid oedd dysgwyr iau yn ymddangos mor agored i'w defnyddio – *"Nid ydynt mor awyddus ar y cynhyrchion di-blastig, ecogyfeillgar, na'r*

*cynhyrchion golchadwy – nid oes ganddyn nhw ddiddordeb mawr yn y rhai hynny o gwbl."* [Ysgol]

Fe wnaethom siarad â 26 defnyddiwr terfynol yn fanwl ynghylch eu profiadau o ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a / neu ddi-blastig a dywedodd 44% (n=11) nad oeddent yn teimlo’n 'hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' wrth ddefnyddio'r cynhyrchion hyn, tra dywedodd y gweddill eu bod yn 'weddol hyderus' – nid oedd yr un ohonynt yn 'hyderus iawn'. Pan wnaethom archwilio beth oedd y rheswm dros hyn, dangosodd canlyniadau bod dau brif bryder ynghylch defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio (megis padiau y gellir eu hailddefnyddio, cwpanau mislif):

- Rhwystrau sy'n gysylltiedig â hylendid, fel sut i'w glanhau, yr amser sydd ei angen i'w glanhau a gorfod cario cynhyrchion swmpus a budr gyda nhw: *"Dydw i ddim wedi defnyddio'r pad y gellir ei ailddefnyddio chwaith oherwydd nad ydw i'n hollol siŵr sut i'w lanhau'n iawn er mwyn iddo fod yn ddigon diogel a diheintiedig i gael ei ailddefnyddio"* [Defnyddiwr terfynol]. Roedd sylw arall yn cynnwys; *"Rwyf wedi eu defnyddio [padiau y gellir eu hailddefnyddio] yn y gorffennol, ond rwy'n teimlo eu bod hin cymryd llawer o amser i’w glanhau"* [Defnyddiwr terfynol]
- Roedd pryderon hefyd ynghylch cynhyrchion yn gollwng: *"Does gen i ddim cymaint o hyder o ran faint maen nhw'n gallu ei ddal ac os ydyn nhw'n gollwng."* [Defnyddiwr terfynol]; ac: *"Yn dod gan ferch sydd â llif trwm rwy'n dal i boeni ychydig am faint y gall cynnyrch ei ddal heb ollwng a pheidio â dal y gwaed heb ledaenu o gwmpas."* [Defnyddiwr terfynol]

### 4.2.3 Pa wybodaeth a gafodd pobl am gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a/neu ddi-blastig




Fe wnaethom ni ofyn i sefydliadau sut maen nhw wedi mynd ati i addysgu pobl am gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a/neu gynhyrchion di-blastig (Tabl 6). Dywedodd ychydig llai na hanner (46%) eu bod nhw wedi cynnal sesiynau addysgol neu drafodaethau gyda dysgwyr – *"Fe wnaethon ni siarad â'r merched oedd yn derbyn y cynhyrchion am sut roedd y rhai organig/di-blastig yn well i'r amgylchedd a sut y gallen nhw geisio newid i ddefnyddio'r rhain."*

Dywedodd tua chwarter (23%) eu bod nhw wedi hyrwyddo cynhyrchion ecogyfeillgar trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu eu gwefan – *"Roedd ein sylw ar y cyfryngau cymdeithasol a'n cymorth ymchwiliad wyneb yn wyneb yn darparu'r platfform i ddechrau lledaenu'r gair am y ddarpariaeth sydd ar gael yn ein canolfan."* Dywedodd 20% arall eu bod nhw wedi cynnig cynhyrchion ecogyfeillgar i roi cynnig ar – *"Trwy ddarparu'r cynhyrchion gyda sgwrs ynghylch eu defnydd."* Pan wnaethom ni ofyn i ddefnyddwyr terfynol eu hunain, dywedodd 35% eu bod nhw wedi derbyn gwybodaeth am gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a/neu gynhyrchion di-blastig.

**Tabl 6: Sut mae sefydliadau wedi mynd ati i addysgu pobl am gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a/neu ddi-blastig**

| | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Sesiynau / sgyrsiau addysgol gyda dysgwyr | 56 | 46% |
| Wedi hyrwyddo cynhyrchion ecogyfeillgar ar gyfryngau cymdeithasol, gwefan ac ati. | 28 | 23% |
| Cynnig cynhyrchion ecogyfeillgar i roi cynnig arnynt | 24 | 20% |
| Cynhyrchu canllawiau mewnol, gwybodaeth | 18 | 15% |
| Uwchsgilio staff i gefnogi dysgwyr | 9 | 7% |
| Mae llysgenhadon myfyrwyr wedi bod yn siarad â dysgwyr eraill | 3 | 2% |
| Arall | 5 | 4% |
| Heb wneud unrhyw beth | 11 | 9% |
| **Ymatebwyr** | **121** | |

(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

### 4.2.4 Gwella profiad defnyddiwr o gynhyrchion ecogyfeillgar

Gan archwilio sut y gellid gwella profiadau defnyddio cynhyrchion ecogyfeillgar, roedd defnyddwyr terfynol yn teimlo y dylid ystyried gwella argaeledd eitemau, gan gynnwys yr ystod o lefelau amsugnol. Fodd bynnag, mae angen cefnogi hyn gyda mwy o wybodaeth ac addysg am gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio yn benodol, fel sut i'w golchi, beth i'w ddisgwyl ac ati – *"Gwybodaeth fel sut i lanhau cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio yn*

*iawn a sut i sicrhau eu bod nhw'n gwbl lân. Lle i'w storio pan nad ydych chi ar eich mislif i sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu difrodi neu'n fudr a byddai cael y wybodaeth ar ffurf syml fel taflenni neu sgyrsiau fel y gall pawb ei deall, yn ddefnyddiol i bobl yn enwedig pe na baent erioed wedi defnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio o'r blaen."* [Defnyddiwr terfynol].

Roedd pryderon am orfod cario cynhyrchion budr o gwmpas yn enwedig o ran yr arogl, y swmp a'r hylendid. Dywedodd rhai defnyddwyr terfynol fod hwn yn rhwystr sylweddol, ond dywedodd y gallai darparu bagiau golchi neu gynnig ardaloedd i storio eitemau budr helpu – *"Ystafell neu ardal storio o bosib, ni fyddai hyn yn ymarferol ond byddai ei wneud yn beth arferol yn helpu. Efallai pe bai ganddyn nhw ystafell gotiau gallai merched gael bag ar wahân. Ond dwi'n gwybod na fyddai pawb yn mynd â nhw adref. Rwy'n credu bod dillad isaf y gellir eu hailddefnyddio yn wych ond os oes rhaid i chi dynnu'r dillad isaf i ffwrdd i newid."* [Defnyddiwr terfynol]. Unwaith eto, mae angen cefnogi hyn gyda gwybodaeth, gan fod llawer o gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio yn llawer mwy amsugnol / gallant ddal mwy o wastraff mislif na chynhyrchion tafladwy safonol. O ganlyniad, nid oes angen i bobl newid mor aml neu nes eu bod yn cyrraedd adref er enghraifft.

#### 4.2.5 Beth oedd y prif rwystrau yn wynebu pobl sy'n cael mislif

Profodd defnyddwyr terfynol fwy o rwystrau wrth geisio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio am ddim o'i gymharu â chynhyrchion tafladwy am ddim (Siart 12). Er enghraifft, dywedodd 56% o ddefnyddwyr terfynol nad ydyn nhw wedi profi unrhyw rwystrau wrth gael cynhyrchion tafladwy, o'i gymharu â 33% yn nodi hyn ar gyfer cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio.

Wrth archwilio pam fod hyn yn wir, soniodd llawer nad oedd cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio ar gael bob amser (27%), neu nad oeddent yn hawdd eu cael (18%) – *"Rwy'n gwybod eu bod nhw yn y dderbynfa gan rhai ysgolion. Mae hyn yn atal rhai pobl ifanc rhag gofyn, gan y gall fod yn embaras"* [Defnyddiwr terfynol]. Nid oedd rhai yn ymwybodol bod y cynhyrchion ar gael (16%). Fodd bynnag, pan wnaethom archwilio hyn gyda defnyddwyr terfynol cynhyrchion mislif am ddim, roedd eu prif bryderon ynghylch defnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio fel arfer yn ymwneud â hylendid – *"Methu â chael gwared arnynt yn syth ar ôl eu defnyddio, eu cario o gwmpas nes y gallaf eu glanhau"* [Defnyddiwr terfynol]. Roedd eraill yn teimlo eu bod nhw'n anghyfleus neu angen

gormod o ymdrech i'w defnyddio – *"Nid ydynt mor gyfleus â chynhyrchion tafladwy"* [Defnyddiwr terfynol].

*"Maen nhw'n eithaf swmpus, ac mae pobl yn dewis pad tafladwy gan eu bod yn fwy cyfleus, a does dim rhaid i chi eu cario o gwmpas unwaith y byddwch chi wedi gorffen gyda nhw."* [Defnyddiwr terfynol].


*"Mae'n debyg ei fod yn ymwneud â golchi a glanhau'r eitemau, rwy'n aml oddi cartref ac mae'n anodd mewn toiledau cyhoeddus i olchi unrhyw beth os oes angen a dwi'n poeni na fydd mor lân ac felly y byddai'n drewi."* [Defnyddiwr terfynol].

Fe wnaeth y gwaith ansoddol hefyd dynnu sylw at rwystrau rhag defnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio o ganlyniad i stigma'n ymwneud â mislif, yn enwedig gartref. Er enghraifft, efallai y bydd pobl yng nghartref y teulu yn dod yn ymwybodol bod rhywun ar eu mislif oherwydd bod cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu golchi a'u sychu, mewn cyferbyniad â chynhyrchion tafladwy y gellir eu taflu'n hawdd – "*Fyddwn i ddim wir yn hoffi defnyddio rhai y gellir eu hailddefnyddio oherwydd yna byddai'n rhaid i mi fynd adref a'u golchi, a dydw i ddim yn teimlo fy mod i'n gallu gwneud hynny'n rhydd gan nad ydym ni'n siarad am y mislif yn gyhoeddus yn fy nghartref."* [Defnyddiwr terfynol]

Dylai mentrau cymunedol crefyddol a diwylliannol ynghylch urddas mislif ystyried y tabŵs ynghylch y mislif, ac iechyd atgenhedlu.[21] Amlygodd nifer o ddefnyddwyr terfynol hefyd yr angen am ystod ehangach o opsiynau amsugno, gan ganolbwyntio ar gynnig mwy o gynhyrchion ar gyfer llif mislif trwm – *"Mae'r amrediad llif yn aml o ysgafn i ganolig ac weithiau'n drwm ond byth yn drwm iawn neu nid oes llawer iawn o lif trwm, gan ei gwneud yn llai hygyrch i bobl â llifoedd trwm"* [Defnyddiwr terfynol].

[21] Let's talk. Period: Inclusivity and diversity

**Siart 12: Rhwystrau rhag cael cynhyrchion mislif am ddim**




(Arolwg gwerthuso Urddas Mislif defnyddwyr terfynol 2023)

**cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio yn unig*

## 4.3 Yr effaith mae'r grant yn ei chael ar dderbynwyr cynhyrchion mislif

### 4.3.1 Pa effaith mae'r cynhyrchion mislif am ddim wedi'i chael ar gyllid pobl

Gwyddom y bydd pobl sy'n wynebu tlodi yn aml yn anghofio prynu cynhyrchion mislif, gyda chynhyrchion mislif ecogyfeillgar yn cael eu hystyried yn llai fforddiadwy[22]. Felly, mae'n bwysig deall i ba raddau mae'r grant wedi effeithio ar gyllid pobl. Mae gwahaniaethau yn yr effaith mae cynhyrchion mislif am ddim wedi'i chael ar ddefnyddwyr terfynol. Dywedodd ychydig dros hanner (55%, n=92) o ddefnyddwyr terfynol eu bod nhw’n 'cytuno' bod

[22] Mynediad at Gynhyrchion Mislif Cynllun Peilot Aberdeen: Adroddiad Gwerthuso (Mai 2018), Is-adran Dadansoddi Cymunedau, Llywodraeth yr Alban

ganddyn nhw bellach fwy o arian i'w wario ar bethau eraill o ganlyniad i allu cael cynhyrchion mislif am ddim. Dywedodd un o bob pump (20%, n=34) nad oeddent yn hollol siŵr a dywedodd chwarter (25%, n=42) nad oedd hyn yn wir.

**Siart 13: Y graddau y mae defnyddwyr terfynol yn cytuno bod cynhyrchion mislif am ddim a gwybodaeth am y mislif wedi ...**




(Arolwg gwerthuso Urddas Mislif defnyddwyr terfynol 2023)

Gan archwilio hyn ymhellach, roedd y rhai a gafodd gynhyrchion mislif am ddim oherwydd eu nhw’n yn ei chael hi'n anodd cael cynhyrchion yn gyffredinol, ychydig yn fwy tebygol o gytuno (63%, n=26) bod ganddynt fwy o arian nawr – *"Rwyf wedi arbed llawer o arian sydd wedi fy helpu i fforddio deunydd ysgrifennu a gwerslyfrau pan oedd fy nheulu'n cael trafferthion ariannol yn ystod yr argyfwng costau byw."* [Defnyddiwr terfynol] Mae hyn o'i gymharu â'r rhai nad oedd ganddynt y cynhyrchion mislif, neu wnaeth anghofio dod â'r cynhyrchion mislif roedden nhw eu hangen (58%, n=68) – *"Ni fyddwn yn dweud ei fod wedi helpu, ond mae’n gyfleus pan fydd yn digwydd yn annisgwyl, gall fy nheulu eu fforddio felly dim ond mewn argyfwng yr wyf wedi defnyddio'r rhai am ddim."* [Defnyddiwr terfynol]

Amlygodd yr ymchwil ansoddol yr effeithiau unigol a gafodd cynhyrchion mislif am ddim ar bobl. Er enghraifft, dywedodd Sarah, dysgwr mewn sefydliad addysg bellach wrthym fod cael mynediad at gynhyrchion mislif am ddim yn ei choleg wedi ei galluogi i newid cynhyrchion mislif yn amlach, yn enwedig pan fydd ei mislif yn drymach. Arweiniodd hyn at Sarah yn teimlo'n lanach yn ystod y dydd pan mae hi oddi cartref ac yn gyffredinol mae ganddi fwy o hyder yn mynd allan. Mae'r newid hwn yn bwysig iddi gan nad oes rhaid iddi boeni am gost newid ei chynhyrchion mislif mor aml nawr.




"Mae'n golygu y galla' i fynd i'r coleg hyd yn oed ar ddiwrnod trwm yn gwybod bod gen i opsiwn arall yn hytrach na mynd adref o bosibl oherwydd fy mod i'n ofni y bydda' i'n gollwng."

Pa rwystrau sydd wedi eu goresgyn ac i ba raddau mae pobl yn profi mislif gwell

Mae'r grant wedi galluogi pobl i gael cynhyrchion ecogyfeillgar, yn benodol y rhai a fyddai fel arfer wedi cael trafferth eu fforddio, mwy o brofiad o gynhyrchion ecogyfeillgar – *"Mae wedi fy ngalluogi i roi cynnig ar gynhyrchion newydd ac ymwybyddiaeth o opsiynau eraill sydd ar gael"* [Defnyddiwr terfynol]. Er enghraifft, dywedodd Steph wrthym fod cael y cynhyrchion ecogyfeillgar am ddim wedi rhoi cyfle iddi eu defnyddio, ac na fyddai wedi gallu eu fforddio fel arall. Roedd hi'n teimlo bod hyn yn rhoi mwy o opsiynau iddi, a oedd yn bwysig iddi gan ei bod hi'n ymwybodol o'r amgylchedd.




"Rydych chi yn dueddol o gadw at yr hyn rydych chi'n ei wybod a'r hyn sydd wedi gweithio pan rydych chi'n hŷn. Mae gallu defnyddio'r cynhyrchion mislif hyn sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd yn bwysig i fi."


### 4.3.2 Beth sy'n sbarduno profiadau gwell wrth gael mislif?

Cynhaliwyd dadansoddiad sbardunau allweddol (KDA) i weld pa agweddau sy'n cael y dylanwad cryfaf ar brofiadau cyffredinol pobl ar eu mislif. Mae KDA yn rhoi gwerth perfformiad i ni – os yw gwerth perfformiad newidyn yn agos at 1, yna mae'n sbardun cryf ar gyfer profiad cyffredinol. Os yw'r gwerth yn agos at 0, yna mae'n sbardun gwan ar gyfer profiad cyffredinol (gweler yr adran ddadansoddi am ragor o wybodaeth am KDA).

**Tabl 7: Dadansoddiad Sbardunau Allweddol**

| | Cydberthyniad | Y graddau y mae defnyddwyr terfynol yn cytuno bod cynhyrchion mislif am ddim a gwybodaeth am y mislif wedi eu harwain i deimlo fel a ganlyn... |
|---|---|---|
| Rwy'n poeni llai am fy mislif nawr | 0.68 | 60% |
| Rwy'n teimlo llai o embaras am fy mislif nawr | 0.55 | 59% |
| Rwy'n gwybod mwy am gynhyrchion mislif ecogyfeillgar / y gellir eu hailddefnyddio nag o'r blaen | 0.50 | 55% |
| Rwy'n teimlo'n fwy abl i siarad â phobl yn agored am y mislif nag oeddwn i o'r blaen | 0.49 | 53% |
| Mae gen i fwy o arian i gynilo/gwario ar bethau eraill nawr | 0.49 | 55% |
| Gallaf gael cynhyrchion mislif am ddim yn hawdd nawr | 0.46 | 74% |
| Gallaf gael cynhyrchion mislif ecogyfeillgar / y gellir eu hailddefnyddio yn hawdd nawr | 0.36 | 42% |
| Rwy'n llai tebygol o golli ysgol/coleg, chwaraeon neu weithgareddau cymdeithasol eraill pan fyddaf ar fy mislif nawr | 0.30 | 56% |

Mae Tabl 7 yn dangos bod **bod yn llai pryderus am fod ar eu mislif** yn sbardun allweddol ar gyfer profiadau gwell wrth gael mislif. Cytunodd chwech o bob deg (60%) o ddefnyddwyr terfynol fod cynhyrchion mislif am ddim wedi eu harwain at lai o bryder am eu mislif. Felly, mae gallu cael cynhyrchion mislif am ddim mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol wedi helpu pobl i deimlo'n fwy hyderus ac o ganlyniad yn llai pryderus am gael eu mislif – *"Mae gwybod y gallaf gael gafael ar yr hyn rydw i ei angen pan fyddaf ar fy mislif yn gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus"* [Defnyddiwr terfynol]. Dywedodd Angie wrthym fod y cynhyrchion mislif am ddim wedi helpu i leihau'r straen o orfod cofio dod â digon o gynhyrchion gyda hi am y dydd. Mae hi bellach yn teimlo'n fwy cyfforddus yn yr ysgol ac yn teimlo ei bod hi'n llai tebygol o golli'r dosbarth ar ddyddiau pan mae ganddi lif trwm.




"Mae'n golygu y galla' i fynd i bethau fel coleg pan fydda' i ar fy mislif. Yn y gorffennol, rydw i wedi colli ysgol oherwydd doeddwn i ddim yn gallu newid fy mhadiau yn ddigon aml."

Sbardun allweddol arall mewn pobl oedd yn profi mislif gwell oedd **teimlo llai o embaras am eu mislif**. Dywedodd bron chwech o bob deg (59%) o ddefnyddwyr terfynol fod y rhaglen wedi golygu eu bod nhw'n teimlo llai o embaras – *"Mae eu cael nhw yn yr ystafell ymolchi am ddim wedi gwneud fy mywyd gymaint yn haws a hefyd yn ei gwneud ychydig yn llai annifyr."* [Defnyddiwr terfynol] Dywedodd Lisa wrthym sut roedd ei mislif yn afreolaidd, a sut roedd hi wedi defnyddio papur toiled pan ddechreuodd ei mislif yn annisgwyl. Gan ei bod bellach yn gallu cael cynhyrchion mislif am ddim yn ei sefydliad addysg bellach, mae hi'n llai pryderus am gael ei mislif i ffwrdd o'r cartref ac yn llai tebygol o brofi diferu. Mae hyn yn bwysig i Lisa gan ei bod hi bellach yn fwy cyfforddus yn ei sefydliad addysg bellach.




"Pan fydd fy mislif yn dechrau pan rydw i i ffwrdd o gartref a dydw i ddim wedi dod ag unrhyw badiau gyda fi, bydda' i'n defnyddio papur toiled fel arfer nes i fi gyrraedd adref, sy'n anghyfforddus iawn. Mae hefyd yn gwneud i fi deimlo'n bryderus iawn am ollwng, felly mae gallu defnyddio cynhyrchion mislif am ddim yn help mawr"

### 4.3.3 <u>Cwestiwn ymchwil allweddol 3:</u> Pa effaith mae'r cynhyrchion mislif am ddim a'r wybodaeth wedi'i chael ar lefelau presenoldeb


Mae ymchwil wedi dangos nad oes gan bobl hyder pan fyddant ar eu mislif ac yn gorfod gwneud gweithgarwch corfforol. Os na fyddwch yn mynd i'r afael â hyn, gall hyn gael effaith negyddol ar ffurfio arferion gydol oes ac agweddau cadarnhaol tuag at wneud gweithgarwch

corfforol.[23] At ei gilydd, dywedodd 56% (n=94) o ddefnyddwyr terfynol fod y cynhyrchion mislif am ddim a gwybodaeth, yn ei gwneud yn llai tebygol iddynt golli allan ar yr ysgol, chwaraeon neu weithgareddau cymdeithasol eraill pan fydd mislif (Siart 14).

Wrth archwilio effaith y cynhyrchion mislif am ddim a'r wybodaeth drwy waith ansoddol defnyddwyr, gwelsom fod rhywfaint o awgrym bod pobl yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau fel chwaraeon, gan eu bod nhw'n gwybod y gallent newid pe bai angen, gan ddefnyddio'r cynhyrchion am ddim sydd ar gael – *"Rwy'n mwynhau cymryd rhan mewn llawer o chwaraeon yn enwedig pêl-droed ac mae'n ei gwneud hi'n haws i mi wybod oherwydd bod gen i opsiynau gwahanol, fy mod i'n dal i allu gwneud gweithgareddau"* [Defnyddiwr terfynol].

Dywedodd eraill eu bod nhw'n fwy tebygol o fynychu'r ysgol neu sefydliad addysg bellach pan oedd eu mislif yn drwm, gan eu bod yn gallu newid yn fwy rheolaidd, ddim yn gorfod poeni am y gost na chael digon o gynhyrchion gyda nhw – *"Mae wedi gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus yn gwneud y gweithgareddau rwy'n mwynhau eu gwneud"* [Defnyddiwr terfynol]. Ategwyd hyn gan sefydliadau a nododd eu bod nhw'n teimlo bod pobl yr oeddent wedi'u cefnogi yn llai tebygol o golli allan ar weithgareddau / ysgol, gydag 83%[24] (n=92) yn dweud eu bod yn 'cytuno'n bendant' (25%) neu'n 'tueddu i gytuno' (58%) â hyn.

**Siart 14: Y graddau y mae defnyddwyr terfynol yn cytuno, oherwydd cynhyrchion mislif am ddim a gwybodaeth, eu bod nhw'n teimlo fel a ganlyn...**




(Arolwg gwerthuso Urddas Mislif defnyddwyr terfynol 2023)

[23] Puberty & Sport: An Invisible Stage
[24] Yn seiliedig ar 111 o ymatebion i'r arolwg


### 4.3.4 <u>Cwestiwn ymchwil allweddol 4:</u> Sut mae'r grant wedi arwain at leihad mewn stigmâu a thabŵau sy'n gysylltiedig â mislif?

Roedd defnyddwyr terfynol yn dal i deimlo bod stigmâu a thabŵs yn gysylltiedig â mislif mewn cymdeithas, ond roeddent yn teimlo bod manteision yn sgil mwy o bobl yn siarad am y mislif. Mae'r geiriau cyffredin a grybwyllir gan ddefnyddwyr terfynol yn cynnwys:

> *Budr, emosiynol, afresymol, afiach, ffiaidd, amhur, pechadurus, brawychus, cyfrinachol, ust, brwnt, embaras, melltith.*

Mae'r cynhyrchion mislif am ddim a gynigir, a'r wybodaeth a ddarparwyd wedi helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn – *"mae gallu siarad am y peth yn fwy a rhoi mwy o wybodaeth allan yno yn helpu i leihau'r stigma o siarad am y mislif fel pwnc tabŵ"* [Defnyddiwr terfynol]. Dywedodd chwech o bob deg (60%, n=109) o ddefnyddwyr terfynol eu bod, o ganlyniad i'r rhaglen hon, yn llai pryderus am eu mislif nawr, tra bod 59% (n=108) yn teimlo llai o embaras am eu mislif, a 53% (n=96) yn teimlo eu bod yn gallu siarad yn fwy agored am fislif (Siart 15). Dangosodd y gwaith ansoddol gyda defnyddwyr terfynol y byddai pobl yn hoffi gweld mwy o waith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn – *"Yn aml mae yna sylwadau negyddol am fislif a chael mislif, e.e., os ydych ychydig yn anniddig efallai mai'r ymateb yw "ydy hi'n amser eich mislif?" Does dim digon o gydnabyddiaeth am sut mae mislif yn effeithio ar ferched a sut gall hyn fod yn bositif! Dylai fod yn sgwrs rymus yn hytrach nag un sy'n gweld mislif fel rhywbeth negyddol"* [Defnyddiwr terfynol]. Derbyniwyd adborth hefyd ar y stigmâu a'r tabŵs mewn cymunedau, megis cymunedau De-ddwyrain Asia a Roma / Teithwyr a sut y dylai addysg ar y mislif ddechrau yn iau – *"Yn ddelfrydol mewn ysgolion sy'n dechrau o oedran ifanc ond hefyd yn y cyhoedd agored yn bennaf yng nghymunedau De-ddwyrain Asia. O brofiad, mae'r pwnc yn dabŵ ac mae dynion yn ofni'r pwnc. Dylid darparu mwy o wybodaeth yn y cymunedau a'r amgylcheddau hyn"* [Defnyddiwr terfynol] Sylw arall oedd am gymuned Roma Sipsi – "*Rwy'n Sipsiwn Roma ac nid yw iechyd menywod yn rhywbeth sy'n cael ei siarad amdano yn agored ac yn bendant nid gyda dynion. Angen addysg pan rydych chi tua 11 mlwydd oed, cael sgwrs mewn ysgolion a'r cynhyrchion am ddim ar gael iddyn nhw".* [Defnyddiwr terfynol]


**Siart 15: Y graddau y mae defnyddwyr yn cytuno bod cynhyrchion mislif am ddim a gwybodaeth am y mislif wedi effeithio arnyn nhw.**




(Arolwg gwerthuso Urddas Mislif defnyddwyr terfynol 2023)

### 4.3.5 Anghenion mislif y defnyddiwr terfynol

Fe wnaethom ofyn i ddefnyddwyr terfynol (n=26) feddwl am ba bethau fyddai'n gwneud eu bywydau yn haws pan oeddent yn cael mislif. Cafodd y cyfranogwyr dempled i nodi eu meddyliau (yn unol â'r ddelwedd isod).




I grynhoi, roedd anghenion mislif defnyddwyr terfynol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Rhoi'r gorau i golli ysgol/coleg neu weithgareddau eraill** | ▪ Darparu cynhyrchion nad ydynt yn gollwng<br>▪ Gwybod at bwy i fynd atynt os ydych chi'n cael damwain annisgwyl / staff 'cyfeillgar i'r mislif' y gellir mynd atynt<br>▪ Gwybodaeth fanylach am symptomau'r mislif a sut i ddelio â nhw<br>▪ Lleddfu poen, poteli dŵr poeth, padiau wedi'u gwresogi<br>▪ Gallu newid yn fwy rheolaidd pan yn yr ysgol<br>▪ Gallu gweithio / astudio o gartref |

| | |
|---|---|
| **Cael cynhyrchion mislif yn haws** | ▪ Lle gallwch chi gael cynhyrchion yn gyflym / heb orfod gofyn i unrhyw un<br>▪ Cael cynhyrchion y tu mewn i'r ciwbiclau toiled yn hytrach na'r tu allan wrth y sinciau<br>▪ Cael cynhyrchion am ddim ym mhob toiled cyhoeddus<br>▪ Parseli mislif yn cael eu darparu bob mis<br>▪ Cerdyn synhwyrol y gall dysgwyr ei ddangos i staff fel y gallant gael / delio â mislif yn haws |
| **Teimlo'n lân ac yn gyfforddus** | ▪ Darparu cadachau glanweithiol<br>▪ Gallu cael dillad sbâr ar gyfer unrhyw ddamweiniau<br>▪ Gallu defnyddio cawodydd neu gyfleusterau golchi gwell<br>▪ Sicrhau bod biniau mislif yn cael eu darparu a'u gwagio'n rheolaidd |
| **Siarad ag eraill am bryderon** | ▪ Mae angen normaleiddio sgyrsiau am fislif<br>▪ Mwy o sgyrsiau am y mislif gyda dynion<br>▪ Mae arddangos cynhyrchion yn eich helpu i siarad amdanynt gydag eraill |
| **Teimlo llai o embaras** | ▪ Pob rhyw i ddysgu am y mislif<br>▪ Peidio â defnyddio iaith amwys fel 'adeg y mis'<br>▪ Gwella ymwybyddiaeth o sut i helpu eraill sy'n cael mislif<br>▪ Cael trafodaethau agored am gylchoedd mislif fel bod pobl yn deall eu cyrff eu hunain yn well<br>▪ Mwy o bobl yn derbyn bod y mislif yn normal |
| **Rhoi cynnig ar wahanol gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio / di-blastig** | ▪ Gwella argaeledd eitemau<br>▪ Rhoi cynnig arnynt gartref yn gyntaf<br>▪ Mwy o wybodaeth ac addysg h.y. sut i'w golchi, beth i'w ddisgwyl ac ati.<br>▪ Dysgu am fuddion economaidd cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio<br>▪ Clywed gan eraill sydd wedi eu defnyddio<br>▪ Bag golchi i storio cynhyrchion budr |

## 4.4 Cwestiwn ymchwil allweddol 5: Sut mae cyllid, gwybodaeth a chynhyrchion mislif am ddim wedi cael eu dyrannu a'u dosbarthu i'r rhai sydd ei angen fwyaf ledled Cymru?

### 4.4.1 Dealltwriaeth o bwrpas a disgwyliadau'r grant

Dywedodd mwyafrif y sefydliadau (84%, n=103) eu bod nhw'n ymwybodol o weledigaeth y grant, a bod yr holl sefydliadau yn gwerthfawrogi'r swm mawr o gyllid. Roedden nhw'n teimlo ei fod yn gynhwysol, gan gynnig cymorth mislif, fel cynhyrchion am ddim ac addysg, i unrhyw un sydd ei angen.

Ar y cyfan, dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr fod eu profiadau o'r grant yn cyd-fynd â'u disgwyliadau cychwynnol – *"I mi, mae'n syml iawn"* [Awdurdod lleol]. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo ei bod yn amlwg beth fyddai'n digwydd, y byddent yn cael yr arian ac y byddent wedyn yn dosbarthu yn y ffordd roedden nhw'n teimlo oedd orau ar gyfer eu hardal. Soniwyd hefyd, pan ddechreuodd y grant am y tro cyntaf, ei fod yn llawer llai ac ers hynny mae wedi tyfu'n sylweddol – "Roedd yn llawer llai nag ydy o nawr" [Awdurdod lleol].

Ochr yn ochr â hyn, adroddodd y cyfranogwyr wrth i'r grant dyfu, felly hefyd y gofynion rheoli h.y., yr adnoddau a'r amser sydd eu hangen i weinyddu'r arian – mae goblygiadau hyn yn cael eu trafod yn fanylach yn yr adrannau isod.

## 4.5 Sut a ble orau mae'r grant yn ffitio o fewn sefydliadau a thimau


Dywedodd ychydig dros hanner (51%, n=66) o sefydliadau a gwblhaodd yr arolwg eu bod nhw'n dal y cyfrifoldeb arweiniol am fynd i'r afael â thlodi mislif ac urddas mislif o fewn eu sefydliad (Siart 16). Roedd hyn yn arbennig o wir am awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach, tra bod gan ysgolion a lleoliadau cymunedol gyfran ychydig yn uwch a ddywedodd eu bod yn weinyddwyr o fewn eu sefydliad. Roedd y rhan fwyaf (86%, n=107) yn teimlo eu bod nhw'n glir am rôl eu sefydliad o ran gwella urddas mislif yng Nghymru.

Pan archwiliwyd y grantiau mewn sefydliadau yn y gwaith manylach, canfuwyd bod amrywiadau. Mewn awdurdodau lleol, mae'n aml yn anodd nodi lle yn union y dylai ffitio gan fod llawer o fannau y gallai ffitio gan gynnwys addysg, ieuenctid, iechyd a lles neu mewn adrannau sy'n rheoli grantiau a chyllid.

Waeth ble roedd urddas mislif yn eistedd o fewn y sefydliadau y cysylltwyd â nhw, roedd cydweithio ar draws eu gwahanol adrannau i reoli a darparu'r grant – *"Gwasanaethau Ieuenctid, allwn i ddim ei gyflawni heb eu cyfranogiad gweithredol"* [Awdurdod lleol] ac *"Mae*

*wedi ein helpu ni i allu cael mynediad i'r ysgolion ac ymgysylltu â nhw a darganfod beth sydd ei angen ar y bobl ifanc a'r ysgolion."* [Awdurdod lleol]

**Siart 16: Beth yw eich rôl mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi mislif ac urddas mislif i'ch sefydliad?**
*(n=129)*




(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

### 4.5.1 Pa heriau oedd yn wynebu sefydliadau wrth gynnig cynhyrchion mislif am ddim / cefnogaeth i bobl

Amlygodd pedwar o bob deg (40%, n=49) faterion storio ar gyfer cynhyrchion mislif fel her allweddol trwy'r arolwg (Siart 17). Amlygwyd hyn hefyd fel pryder i'r rhai a roddodd adborth drwy'r gwaith ansoddol. I rai, roedd gormod o gynhyrchion yn cael eu harchebu/eu darparu, fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio o sefydliad i sefydliad ac roedd yn cael ei briodoli i ffactorau amrywiol gan gynnwys maint safleoedd, cyfleusterau storio priodol ac ati. Mewn rhai achosion roedd hyn yn golygu bod cynhyrchion yn cael eu taflu i ffwrdd – *"Y broblem ni'n wynebu yw ein bod ni'n ysgol gynradd fach, ac mae gyda ni warged enfawr o gynhyrchion. Dwi wedi eu ffonio nhw ond maen nhw'n dal i'w hanfon, mae'n gymaint o wastraff."* [Ysgol gynradd]. Roedd rhai yn teimlo nad oedd rheolaeth dros faint o gynhyrchion a dderbyniwyd na phryd roedd y rhain yn dod i mewn, sy'n ei gwneud hi'n anodd eu rheoli – *"Rydym ni'n cael gormod o gynhyrchion i'w defnyddio mewn gwirionedd felly mae' wastraff arian... Mae'n wych bod gennym ni'r adnoddau i ofalu am bawb, ond rwy'n credu ein bod ni'n cael gormod o gynhyrchion."* [Ysgol uwchradd].


Her allweddol arall oedd faint o adnoddau staff oedd ei angen i reoli'r grant. Roedd hyn yn arbennig o wir am awdurdodau lleol – *"Mae costau gweinyddu sylweddol ynghlwm wrth hyn oherwydd yr holl archebu, olrhain, stocrestr ar gyfer yr holl stoc." "Mae gwaith gweinyddu yn rhan o'r rhan fwyaf o grantiau bellach, felly byddai'n werth ychwanegu hynny oherwydd eich*

*bod chi'n gwybod ei fod yn cymryd amser."* [Awdurdod lleol] Dywedodd y rhai oedd yn fwy profiadol wrth dderbyn grantiau bod gallu gwario'r grant ar amser gweinyddu fel arfer yn cael ei gynnig ochr yn ochr â grantiau eraill maen nhw'n eu derbyn – *"Fydden ni ddim yn derbyn hyn drwy unrhyw grant dwi'n ymwybodol ohono."* [Awdurdod lleol].

Dywedodd rhai o'r lleoliadau cymunedol eu bod nhw'n teimlo fel pe na bai cysondeb o ran cael cynhyrchion drwy'r grant a'u bod yn cael eu hystyried dim ond pan oedd cynhyrchion dros ben – *"O, ail feddwl... o, mae gennym ni rai ychwanegol, ydych chi eu heisiau."* [Lleoliad cymunedol]. Gallai hyn fod oherwydd y diffyg adnoddau o fewn yr awdurdodau lleol i reoli'r broses hon yn effeithiol.

**Siart 17: Pa rwystrau mae eich sefydliad wedi'u hwynebu wrth gynnig cynhyrchion mislif am ddim / cefnogaeth i bobl?**

*(n=129)*




(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

* *(ac eithrio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a / neu ddi-blastig)*

Dywedodd un sefydliad, oherwydd y newid yn y model ariannu o fewn eu hawdurdod lleol oherwydd cyfuno'r grant, ei fod yn golygu bod pŵer prynu yn symud i ffwrdd o'r ysgol ar gyfer yr ysgol hon, felly collwyd eu dull llwyddiannus dan arweiniad myfyrwyr wrth i gwmni ar wahân gael ei gomisiynu i ddarparu cynhyrchion. Roedd hyn wedi cael effaith negyddol ar ddysgwyr wrth arwain y broses o wneud penderfyniadau ar gynhyrchion mislif drwy'r ysgol – *"Roedden ni wedi grymuso ein myfyrwyr gyda'r syniad yma y gallen nhw gefnogi pobl ifanc i gael gafael ar gynhyrchion ac roedden nhw'n cael rhywfaint o lwyddiant gyda hyn, ond wedyn cafodd y darn mwyaf ohono [y cyllid] ei ddyrannu i gwmni. Mae'n anodd iawn monitro gwariant go iawn erbyn hyn."* [Ysgol uwchradd]

### 4.5.2 Beth oedd galluogwyr cydweithio / cyfathrebu effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ynghyd â rhwng gwahanol sefydliadau

Ar y cyfan, dywedodd sefydliadau fod Llywodraeth Cymru yn hawdd cyfathrebu â nhw – "*Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu unrhyw beth rydych chi'n ei wybod, gallwch chi anfon e-bost atyn nhw'n uniongyrchol a byddan nhw'n cysylltu â chi, felly do, maen nhw wedi bod yn eithaf da."* Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn teimlo yr hoffent weld mwy o ddysgu ac ymgysylltu ar y cyd â sefydliadau eraill a chael llwyfan/fforwm y gallent wneud hyn ynddo.

Roedd cwpl o gyfranogwyr yn teimlo bod y grant wedi eu galluogi i weithio gyda sefydliadau na fyddent fel arfer wedi gallu ymgysylltu â nhw, fel cwmnïau newydd annibynnol bach sy'n cynnig cynhyrchion ecogyfeillgar. Nid yn unig mae hyn wedi eu helpu i ddarparu cynhyrchion ecogyfeillgar, ond esboniodd un sefydliad sut mae'r cynhyrchion hyn wedi'u cyd-ddylunio gan fyfyrwyr. Mae hyn yn ei dro yn cael sgil-effaith i'r cwmni hefyd, trwy gynyddu eu cyfaint gwerthiant – *"Maen nhw wedi ffynnu oherwydd ym mhobman rwy'n mynd, rwy'n dweud wrth bobl mai dyma pwy rwy'n gweithio gyda nhw ac rwy'n gwybod bod awdurdodau lleol ac ysgolion a cholegau i gyd wedi cysylltu [y sefydliad] yno iddi gwrdd â'u harweinwyr urddas mislif."* [Awdurdod lleol]

### 4.5.3 Gwelliannau i'r grant

- Canllawiau a gynigiwyd / darparwyd

Roedd y mwyafrif yn hapus gyda'r wybodaeth a'r arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, er bod un cyfranogwr yn sôn bod angen iddynt gynnig hyfforddiant ar sut i reoli grant, gan efallai nad oes gan rai pobl brofiad o wneud hyn. Awgrymodd cwpl o sefydliadau drwy'r gwaith ansoddol y dylid darparu mwy o wybodaeth am y cynnig grant, yn enwedig ar

gyfer sefydliadau cymunedol – *"Mae angen i'r Cyngor ddechrau lledaenu'r wybodaeth mewn ffordd llawer gwell ac mae angen i Lywodraeth Cymru roi gwybod i bobl bod y grant hwn ar gael."* [Lleoliad cymunedol]

- Cynnwys amser gweinyddu wedi'i ymgorffori yn y grant

Yn cael ei grybwyll amlaf oedd yr angen i'r grant gynnwys amser gweinyddu – *"Mae costau gweinyddu sylweddol ynghlwm wrth hyn oherwydd yr holl archebu, olrhain, stocrestr ar gyfer yr holl stoc."* [Awdurdod lleol] Dywedodd un arall – *"Erbyn hyn mae rhan fwyaf o grantiau yn cynnwys gwaith gweinyddu, felly byddai'n werth ychwanegu hynny oherwydd eich bod yn gwybod ei fod yn cymryd amser."* [Awdurdod lleol] Dywedodd cyfranogwyr oedd yn fwy profiadol wrth reoli grantiau ei fod fel arfer yn cael ei gynnig gyda grantiau eraill maen nhw'n eu derbyn –*"Fydden ni ddim yn derbyn hyn o unrhyw grant dwi'n ymwybodol ohono."*

- Cynnig hyfforddiant ac adnoddau addysgol safonol

Roedd cyfran uchel o'r sefydliadau y siaradwyd â nhw drwy'r gwaith ansoddol hefyd yn sôn am yr angen i'r grant ganolbwyntio'n fwy helaeth ar hyfforddiant ac addysg, gan nad oeddent yn teimlo bod digon o gyllid i sicrhau parhad – *"Mae wedi profi'n anodd iawn dod o hyd i rywun sydd eisiau darparu'r math yma o waith ar sail rhan amser ac ad hoc".* [Awdurdod lleol] Mae hyn yn cael ei ategu yn ymatebion yr arolwg, gyda'r rhan fwyaf yn cael cymorth pellach i bobl sy'n cael mislif y tu allan i'r grant megis gwybodaeth e.e. posteri, taflenni (54%) a / neu hyfforddiant ac addysg (42%) (Tabl 8) – *"Rwy'n credu y gellid gwario rhan o'r grant ar eu hyfforddi i arwain rhwydweithiau cymorth cymheiriaid. Gallai'r nyrs ddod i mewn a'u hyfforddi a'u helpu i fod yn fwy gwybodus am ddarparu hyfforddiant neu'r eco-gynhyrchion. Mae hwnnw'n faes sydd o bosib yn cael ei anwybyddu ar hyn o bryd oherwydd er bod y syniad yno, nid yw byth yn digwydd mewn gwirionedd."* [Ysgol uwchradd]

Roedd y sefydliadau hyn hefyd yn teimlo y byddai cynhyrchu deunydd addysgol y gellir ei ddefnyddio i gefnogi'r cynhyrchion yn ddefnyddiol. Byddai hyn yn helpu gyda negeseuon cyson am fislif ar draws y wlad – *"Rwy'n meddwl ei fod yn golygu sicrhau bod pobl yn ymwybodol ac yn rhoi'r wybodaeth gywir allan yn y ffordd iawn. Os ydw i'n gweithio gyda chymuned sydd ddim yn darllen nac yn ysgrifennu'n dda iawn, yna mae angen i ni gael rhywbeth sy'n hawdd ei ddarllen".* [Lleoliad cymunedol]

**Tabl 8: Pa gymorth ychwanegol, os o gwbl, ydych chi wedi manteisio arno y tu allan i'r grant i helpu i gefnogi pobl sy'n cael mislif?**

| | Cyfrif | % |
|---|---|---|
| Gwybodaeth e.e. posteri, taflenni | 32 | 54% |
| Hyfforddiant ac addysg | 25 | 42% |
| Cyllid (nad oedd yn rhan o'r Grant Urddas Mislif) | 12 | 20% |
| Arall | 9 | 15% |
| **Ymatebwyr** | **59** | |

(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

- Hyblygrwydd gwariant grant

Fel y nodwyd yn flaenorol, soniodd sefydliadau sut mae ganddynt bentwr o gynhyrchion nad oeddent yn cael eu defnyddio – *”yr adborth a gawn gan yr ysgolion yw bod ganddyn nhw ormod o gynhyrchion”* [Awdurdod lleol] – ac roeddent yn teimlo y dylid defnyddio'r cyllid yn rhywle arall, er enghraifft ar addysg a marchnata'r cynhyrchion am ddim, yn hytrach na'i neilltuo i'w defnyddio yn erbyn meini prawf penodol. Roedd sefydliadau eraill yn teimlo bod angen cynyddu'r ystod o gynhyrchion y gallai'r grant eu hariannu, er enghraifft glanedydd golchi dillad *–"Yr hyn fyddai'n ddefnyddiol fyddai cynhyrchion ymolchi yn cael eu cynnwys yn yr arian grant i helpu i olchi."* [Ysgol] I grynhoi, hoffai sefydliadau gael mwy o hyblygrwydd o ran sut mae'r grant yn cael ei wario fel eu bod nhw’n ymateb i angen gan y gall hyn amrywio'n eithaf sylweddol.

Adroddodd sefydliadau am rai heriau wrth weithio gyda chwmnïau llai sy'n darparu cynhyrchion, fel faint o gyfaint y gallant ei gynhyrchu. Soniodd un sefydliad ei bod yn her dod o hyd i gynhyrchion ecogyfeillgar a gynhyrchwyd yn lleol ac yn teimlo y byddai'n fuddiol pe bai ambell gyflenwr y gallai pawb eu defnyddio yn y tymor hir – *"Cyfeiriadur o gyflenwyr dewisol y gallem edrych arnynt... rydym yn treulio cryn dipyn o amser yn dod o hyd i’r cynhyrchion"* [Awdurdod lleol].

Yn olaf, byddai sefydliadau'n croesawu cyllid ar gyfer seilwaith TG neu ddatblygu system archebu a phrynu ganolog – *"Fy ngobaith fyddai y byddai'n rhyw fath o weithio mewn partneriaeth ranbarthol a'ch bod yn gwybod y byddai'r partneriaid rhanbarthol hynny gyda'i*


*gilydd yn caffael mewn gwasanaeth ac yn datblygu'r seilwaith TG er mwyn galluogi hynny i redeg yn effeithlon."* [Awdurdod lleol]

- Monitro ymwybyddiaeth, defnydd a phroses well ar gyfer rhoi adborth

Roedd awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn teimlo bod y ffurflenni adborth a monitro wedi dod yn fwy cymhleth a heriol, heb gael gwybod o flaen llaw pa wybodaeth y byddai angen ei hadrodd ôl – *"Rydyn ni'n ei chael hi'n anodd deall pam eu bod nhw eisiau gymaint o ddata pan nad ydych chi wir wedi awgrymu eich bod chi ei eisiau ar y dechrau"* [Awdurdod lleol]. Wrth archwilio beth roedd sefydliadau yn ei fonitro o ran cynhyrchion mislif, dywedodd bron i bedwar o bob deg (39%, n=50) nad oeddent yn monitro pwy oedd yn cymryd y cynhyrchion mislif a dywedodd 19% (n=24) nad oeddent yn monitro ymwybyddiaeth chwaith. Roedd y sefydliadau hyn yn fwy tebygol o fod yn lleoliadau cymunedol ac ysgolion cynradd.

**Siart 18: Sut ydych chi'n monitro ymwybyddiaeth a / neu'r nifer sy'n manteisio ar gynhyrchion mislif am ddim?**

*(n=129)*




(Arolwg sefydliadol gwerthuso Urddas Mislif 2023)

- Dysgu a rennir

Roedd bron i un rhan o bump (15%) o sefydliadau wedi dod ar draws rhwystrau wrth nodi arfer gorau neu rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda wrth gefnogi pobl sy'n cael mislif. Ategwyd hyn ymhellach gan y mwyafrif o sefydliadau y buom yn siarad â nhw drwy'r gwaith

ansoddol, a oedd hefyd yn teimlo bod angen mwy o ddysgu a rennir ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio. Er i'r rhan fwyaf sôn eu bod nhw wedi mynychu sesiynau, maen nhw eisiau gweld mwy o'r trafodaethau hyn yn digwydd – *"Dylen nhw wneud mwy o ddysgu a rennir"*. Roedd un cyfranogwr yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fod yn rhannu gwybodaeth am effaith eu gwaith a'r grant yn ei gyfanrwydd.

## 5. Casgliadau

Roedd gwerthusiad o'r Grant Urddas Mislif eisiau archwilio **effeithiolrwydd y broses ariannu** i nodi pa **effaith mae'r grant yn ei chael ar dderbynwyr** y cynhyrchion mislif am ddim a'r wybodaeth a ddarparwyd, ac i **roi mewnwelediad ac argymhellion** ar gyfer dyfodol y grant. Yn gyffredinol, mesurwyd llwyddiant y grant a'r rhaglenni gwaith yn erbyn pum canlyniad, gyda'r paragraffau isod yn cyflwyno crynodeb o hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad.

Dylid nodi bod y canfyddiadau'n gyfyngedig yn yr ystyr bod maint y samplau bach yn golygu nad oedd yn bosibl haenu'r prif ganfyddiadau yn ôl grwpiau allweddol heb wasanaethau digonol. Dylai gweithgareddau ymchwil yn y dyfodol ganolbwyntio ar grwpiau sydd heb wasanaethau digonol yn benodol.

***Canlyniad: Gall dysgwyr a'r rhai ar incwm isel gael cynhyrchion mislif am ddim yn hawdd***

Mae'r Grant Urddas Mislif yn cael ei ddefnyddio gan bobl sy'n cael mislif a'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd cael cynhyrchion mislif. Er bod y grant yn agored i bawb sy'n cael mislif, mae angen sicrhau bod y rhai sydd fel arfer yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gynhyrchion mislif – i wneud eu mislif yn fwy cyfforddus – yn ymwybodol ac yn gallu cael cynhyrchion ar draws ystod o leoliadau. Wrth edrych ar y gwahanol fodelau ar draws sefydliadau, mae dull syml o sicrhau bod cynhyrchion ar gael mewn toiledau fel nad oes rhaid i bobl ofyn, yn ymddangos fel y dull mwyaf effeithiol o bell ffordd.

***Canlyniad: Mae cynhyrchion am ddim a gwybodaeth am y mislif wedi'u dyrannu'n gywir ac yn effeithiol ar draws ysgolion, sefydliadau addysg bellach a lleoliadau cymunedol eraill yng Nghymru***

Mae'r grant yn cael ei ddyrannu i bob awdurdod lleol a sefydliad addysg bellach, sy'n cael ei hidlo i lawr i ysgolion (awdurdod lleol yn unig), ond mae angen mwy o waith i gyrraedd lleoliadau cymunedol, fel grwpiau gwirfoddol a sefydliadau llawr gwlad, sydd yn fwyaf tebygol o fod yn cefnogi cymunedau heb wasanaethau digonol – gan arwain felly at fwy o gyrhaeddiad. Mae angen mwy o adnoddau ar awdurdodau lleol i hwyluso dull

cydgysylltiedig ac i alluogi gwell cyrhaeddiad gydag ysgolion a lleoliadau cymunedol ar draws eu hardaloedd.

***Canlyniad: Mae dysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn fwy gwybodus a hyderus wrth ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio / di-blastig.***

Mae dysgwyr yn fwy gwybodus am gynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a chynhyrchion di-blastig o ganlyniad i'r grant, ond mae angen gwneud rhagor o waith i wella'r defnydd o opsiynau ecogyfeillgar. Gwnaed ymdrechion cadarnhaol wrth gynnig cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio (fel cwpan mislif, dillad isaf mislif ac ati), ond cynigiwyd y padiau mislif tafladwy safonol yn fwyaf cyffredin, ac yna padiau mislif tafladwy mwy ecogyfeillgar.  Roedd y rhesymau dros hyn yn amrywio o ansawdd y cynhyrchion, pryderon am ollyngiadau a phryderon sy'n gysylltiedig â hylendid, megis sut i'w glanhau, yr amser sydd ei angen i'w glanhau a gorfod cario cynhyrchion swmpus, budr o gwmpas. Mae pobl eisiau clywed gan y rhai sydd wedi defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio, er mwyn deall yn well beth i'w ddisgwyl a sut i ddefnyddio'r cynhyrchion hyn orau. Roedd pryderon ynghylch defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio, fel sut i newid cynhyrchion tra i ffwrdd o'r cartref a sut y byddai hyn yn cael ei drin. Er bod y rhain yn rhwystrau y mae angen eu goresgyn, mae angen gwneud pobl yn ymwybodol bod cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio o ansawdd da yn fwy amsugnol ar y cyfan, felly mae angen eu newid yn llai aml. Y consensws cyffredinol yw bod angen mwy o addysg a gwybodaeth i fynd law yn llaw â darparu'r cynhyrchion hyn i arwain at gynnydd yn y nifer sy'n cael eu defnyddio.

***Canlyniad: Mae dysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn llai tebygol o brofi amhariad gan eu mislif ac mae eu profiadau o fislif yn well.***

Roedd y grant yn cynnig canlyniadau cadarnhaol i bobl, fel arbedion ariannol, ond y canlyniad mwyaf cadarnhaol yw bod pobl yn llai pryderus ac yn teimlo llai o embaras am y mislif. Roedd pobl hefyd yn fwy cyfforddus pan oddi cartref ac roedd y grant yn caniatáu iddyn nhw newid yn fwy rheolaidd a lleihau unrhyw bryderon ynghylch gollyngiadau ac ati. Roedd bylchau o hyd o ran cefnogaeth i gymunedau heb wasanaethau digonol, megis gallu cael cynhyrchion yn rheolaidd (tafladwy neu y gellir eu hailddefnyddio) a deall sut i ddefnyddio a golchi cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio'n effeithiol. Mae gallu golchi a glanhau'r cynhyrchion hyn yn peri rhwystrau i rai defnyddwyr terfynol, nid yn unig yn eu dealltwriaeth o sut i ddelio â'r cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio, ond gyda'r sefyllfa yr oeddent ynddi fel methu fforddio eu golchi a'u sychu neu hyd yn oed gael mynediad i gyfleusterau i'w golchi i mewn.

### *Canlyniad: Mae'r stigmâu a'r tabŵs ynghylch y mislif wedi cael eu lleihau*

Roedd pryderon o hyd am y tabŵs diwylliannol a'r stigmâu ynghylch y mislif sy'n bodoli yn y cartref. Roedd cydnabyddiaeth bod angen gwneud rhagor o waith a chefnogaeth ar chwalu'r mythau sy'n gysylltiedig â mislif ac y bydd y broses hon yn cymryd amser.

# 6. Argymhellion

## 6.1 Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:

1. **Mapio'r rhwydweithiau cymunedol a'r sefydliadau ar lawr gwlad** mewn cymunedau i sicrhau bod y grant yn cyrraedd yr ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf.
2. **Mae angen mwy o hyblygrwydd o ran sut a phryd y caiff arian ei wario** e.e. cario arian drosodd, defnyddio mwy o'r grant ar wybodaeth ac addysg ac ati o fewn blwyddyn ariannol benodol, ochr yn ochr â'r ystod o eitemau y gall y grant eu hariannu.
3. Oherwydd y swm cynyddol o adnoddau sydd eu hangen i reoli'r grant, dylai Llywodraeth Cymru geisio **cynnwys costau gweinyddu,** yn enwedig ar gyfer awdurdodau lleol.
4. Darparu cynnig **hyfforddiant ac addysgol safonol y gall pob sefydliad ei** fabwysiadu. Ond o fewn hyn, cynnig gwybodaeth hygyrch wedi'i theilwra i weddu i'r rhai sydd â rhwystrau llythrennedd neu iaith.
5. Edrych ar **gynnig system archebu ganolog**, ond byddai angen i'r cynnig hwn gael ei archwilio a'i gyd-ddylunio gan sefydliadau er mwyn iddo weithio'n effeithiol.
6. **Gwella'r ffordd mae'r grant yn cael ei fonitro** – o ran yr allbynnau **– a'r adborth cyffredinol** – o ran sesiynau dysgu a rennir mwy rheolaidd ac ystyrlon – gan sefydliadau.  Yn gyffredinol, byddai hyn yn gwella ansawdd data a chysondeb data a gesglir er mwyn olrhain canlyniadau ac effeithiau ar gyfer sefydliadau a defnyddwyr terfynol fel ei gilydd.

## 6.2 Argymhellion i sefydliadau

1. Sicrhau bod **staff hyfforddedig ac ymroddedig mewn lleoliadau addysgol** y mae dysgwyr yn gyfforddus â nhw, ac yn ymwybodol ohonynt, ac sy'n gallu cefnogi anghenion mwy cymhleth.
2. **Dylai cynhyrchion mislif fod ar gael yn rhwydd ar draws pob lleoliad**, heb yr angen i ofyn i staff am gynhyrchion.
3. **Gwella lefelau cyd-ddylunio a chyd-gyflwyno** cynhyrchion mislif ac addysg am ddim mewn lleoliadau academaidd.

4. Dylai sefydliadau geisio **gwella argaeledd eitemau** gan gynnwys yr ystod o lefelau amsugnol ar gyfer cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio, di-blastig a thafladwy safonol fel ei gilydd.
5. **Mae angen cynnig gwybodaeth, ochr yn ochr ag addysg,** fel deunydd cofleidiol e.e. addysg, gwybodaeth, cymorth ariannol ar draws pob sefydliad, gyda phobl sy'n cael mislif a’r rhai nad ydynt i helpu i oresgyn y stigma a'r tabŵs ynghylch y mislif. Yn ddelfrydol, mae angen dechrau hyn yn ifanc e.e. blynyddoedd diweddarach yr ysgol gynradd.
6. **Mae angen cynnig profiadau dysgwyr gyda defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio i ddysgwyr** eraill mewn lleoliad addysgol. Byddai hyn o bosibl yn helpu i oresgyn pryderon pobl ynghylch gollyngiadau, pryderon hylendid ac ati ac yn annog pobl i roi cynnig ar y cynhyrchion hyn.

# 7. Atodiadau

Atodiad A: Canllawiau trafod manwl

Atodiad B: Enghreifftiau gweledol o'r bwrdd cymunedol ar-lein

Atodiad C: Arolwg meintiol (defnyddwyr terfynol a sefydliadau)

Atodiad D: Enghraifft o ffurflen fonitro a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru

## Atodiad A: Canllaw trafod manwl – sefydliadau

<table>
<tr><td>S1: Gall dysgwyr a'r bobl hynny ar incwm isel gael mynediad hawdd at gynhyrchion mislif am ddim<br>Cwestiwn ymchwil: Sut mae dysgwyr a'r bobl hynny ar incwm isel yn cael mynediad hawdd at gynhyrchion mislif am ddim?</td><td>20 mun</td></tr>
<tr><td colspan="2">
1. Sut wnaethoch chi fynd ati i gynnig cynhyrchion mislif am ddim?<br>
o Oes rhywun eisiau rhoi esiampl i mi?<br>
o A oedd eich dull yn amrywio o gwbl h.y. i wahanol fathau o bobl (hŷn yn erbyn iau; pobl anabl; lleiafrifoedd ethnig; ac ati), lleoliadau ac ati? Sut roedd hyn yn amrywio a pham?<br>
2. Pa mor <u>ymwybodol</u> yw eich dysgwyr neu'r bobl yr ydych yn eu cefnogi o'r cynhyrchion mislif sydd ar gael, fyddech chi'n dweud?<br>
o Ac i ba raddau y cymerir y cynhyrchion mislif?<br>
o Beth ydych chi'n meddwl sy'n atal pobl rhag cymryd y cynhyrchion neu gymryd y cynhyrchion yn fwy rheolaidd?<br>
▪ A yw hyn yn amrywio ar draws eich dysgwyr neu bobl rydych yn eu cefnogi e.e. nodweddion (hŷn neu iau; pobl anabl; lleiafrifoedd ethnig; ac ati)?<br>
▪ A yw'r grant wedi helpu i oresgyn hyn o gwbl? Os felly, sut?<br>
3. A all unrhyw un roi enghraifft i mi o'r hyn sydd wedi <u>gweithio'n arbennig o dda</u> wrth gynnig cynhyrchion mislif am ddim?<br>
o Pa agweddau o'ch dull gweithredu oedd yn allweddol i greu ymwybyddiaeth o'r cynhyrchion mislif am ddim?<br>
o A beth am bobl yn cymryd y cynhyrchion – a oedd unrhyw beth a oedd yn galluogi pobl i gymryd y cynhyrchion?<br>
o oedd unrhyw gynhyrchion penodol a weithiodd yn well nag eraill? Pam roedd y rheini'n fwy llwyddiannus?<br>
4. A oes gan unrhyw un <u>enghraifft o her</u> a wynebwyd ganddynt wrth gynnig cynhyrchion mislif am ddim?<br>
5. Pa rwystrau eraill, os o gwbl, ydych chi wedi'u hwynebu fel sefydliad i sicrhau bod eich dysgwyr / y bobl rydych chi'n eu cefnogi yn <u>ymwybodol</u> o'r cynhyrchion mislif sydd ar gael?<br>
o Sut ydych chi wedi goresgyn y rhwystrau hyn? Sut helpodd y grant, os o gwbl?<br>
6. Pa rwystrau eraill, os o gwbl, ydych chi wedi'u hwynebu fel sefydliad wrth <u>annog pobl i gymryd</u> y cynhyrchion mislif am ddim?<br>
o Sut ydych chi wedi goresgyn y rhwystrau hyn? Sut helpodd y grant, os o gwbl?<br>
▪ A oedd unrhyw amrywiadau rhwng y gwahanol fathau o fyfyrwyr / pobl yr ydych yn eu cefnogi (hŷn neu iau; pobl anabl; lleiafrifoedd ethnig; ac ati)?
</td></tr>
<tr><td>S2: Mae dysgwyr a'r rhai ar incwm isel yn llai tebygol o gael eu tarfu gan eu mislif ac yn cael profiadau gwell o'r mislif<br>Cwestiwn ymchwil: Sut mae'r grant wedi arwain at ddysgwyr a'r bobl hynny ar incwm isel yn llai tebygol o wynebu aflonyddwch o ddydd i ddydd oherwydd eu mislif?</td><td>10 mun</td></tr>
<tr><td colspan="2">
7. Sut arall wnaethoch chi <u>gefnogi a hysbysu pobl am y mislif</u> drwy'r grant?<br>
o A oedd unrhyw beth a <u>weithiodd yn arbennig o dda</u>? Pam oedd hyn?<br>
o Sut cafodd y gefnogaeth a'r wybodaeth am y mislif eu <u>teilwra i'r gwahanol fathau o ddysgwyr / pobl</u> rydych chi'n eu cefnogi?<br>
▪ A weithiodd unrhyw beth yn arbennig o dda gydag unrhyw grŵp o bobl?<br>
o I ba raddau y mae'r grant wedi mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan ddysgwyr a'r bobl yr ydych yn eu cefnogi, hynny o gwbl?<br>
▪ Ydych chi wedi clywed unrhyw beth gan eich dysgwyr/pobl rydych yn eu cefnogi o gwbl, os felly, beth?<br>
▪ Beth am amharu ar eu bywydau o ddydd i ddydd pan fydd mislif e.e. cymryd rhan mewn chwaraeon, mynychu'r ysgol, gweithgareddau cymdeithasol eraill?<br>
▪ Pa rwystrau sy'n dal i fodoli? Ym mha ffordd y gallai'r grant helpu i oresgyn y rhwystrau hyn? Beth sydd angen newid?
</td></tr>
<tr><td>S3: Mae dysgwyr a’r bobl hynny ar incwm isel yn fwy gwybodus a hyderus wrth ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a / neu ddi-blastig</td><td>15 mun</td></tr>
</table>

| **Cwestiwn ymchwil: Sut mae'r grant wedi arwain at ddysgwyr a'r rheini ar incwm isel yn fwy gwybodus a hyderus wrth ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a / neu ddi-blastig?** | |
|---|---|
| **8. Ydych chi'n cynnig cynhyrchion ecogyfeillgar?**<br>o Os na, pam ddim?<br>o Pa heriau, os o gwbl, sy'n bodoli o ran cynnig cynhyrchion ecogyfeillgar? Beth fyddai'n helpu i oresgyn yr heriau hyn?<br>**9. 9. Sut cafodd gwybodaeth ac addysg am <u>gynhyrchion ecogyfeillgar</u> eu darparu?**<br>o o A oedd unrhyw amrywiadau yn eich dull o weithredu e.e. nodweddion (hŷn neu iau; pobl anabl; lleiafrifoedd ethnig; ac ati)?<br>**10. 10. Pa mor <u>wybodus</u> yw pobl am y cynhyrchion ecogyfeillgar sydd ar gael yn eich ysgubor chi?**<br>o A yw hyn yn amrywio o gwbl rhwng y gwahanol fathau o fyfyrwyr / pobl yr ydych yn eu cefnogi (hŷn neu iau; pobl anabl; lleiafrifoedd ethnig; ac ati)?<br>▪ Pa fathau o gynhyrchion ecogyfeillgar sy'n cael eu ffafrio a pham?<br>o A beth am bobl yn cymryd y cynhyrchion ecogyfeillgar?<br>▪ A oes unrhyw fathau penodol o bobl sy'n fwy tebygol o gymryd y cynhyrchion ecogyfeillgar (hŷn neu iau; pobl anabl; lleiafrifoedd ethnig; ac ati)?<br>▪ Ac a oes unrhyw rai sy'n llai tebygol o'u cymryd? Sut ydych chi'n meddwl y gellir gwella hyn?<br>**11. Beth yw <u>profiadau</u> pobl sy'n defnyddio'r cynhyrchion ecogyfeillgar?**<br>o Ydych chi'n meddwl bod pobl sydd wedi cael y cynhyrchion yn parhau i'w defnyddio?<br>▪ Os na, pam ddim?<br>o A fu unrhyw rwystrau yr ydych yn ymwybodol ohonynt o ran pobl sy'n cymryd/defnyddio'r cynhyrchion ecogyfeillgar? | |
| **S4:** Mae'r **stigma** a'r **tabŵs** o amgylch y mislif wedi'u **lleihau**<br>**Cwestiwn ymchwil: Sut mae'r grant wedi arwain at leihad mewn stigma a thabŵau sy'n gysylltiedig â'r mislif?** | **15 mun** |
| **12. Pa <u>effaith</u> ydych chi'n meddwl y mae eich dull gweithredu wedi'i chael ar eich dysgwyr / y bobl rydych chi'n eu cefnogi?**<br>o Pa agweddau ar eich dull a gafodd yr effaith fwyaf e.e. y math o gynhyrchion a ddarperir, cefnogaeth/gwybodaeth a ddarperir, hyfforddiant, dulliau addysg ac ati.<br>o Beth am yr adnoddau gwybodaeth / hyfforddiant a ddarperir? Beth fu effaith hyn?<br>▪ Sut ydych chi'n meddwl bod hyn wedi helpu i fynd i'r afael â'r stigma a'r tabŵau sy'n gysylltiedig â'r mislif?<br>**13. Beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei newid <u>i wella sut y byddech chi'n defnyddio'r grant i gael effaith gadarnhaol ar y bobl</u> sy'n profi mislif e.e. ymwybyddiaeth o gynhyrchion, y nifer sy'n manteisio ar y cynhyrchion, cyfathrebu â defnyddwyr, gwybodaeth, cyngor sydd ar gael i ddefnyddwyr?**<br>o A all rhywun roi esiampl i mi?<br>o Beth am yr adnoddau gwybodaeth / hyfforddiant – beth all y grantiau gefnogi sefydliadau sy'n cynnig y rhain?<br>**14. A yw eich ymwneud â'r grant wedi newid y ffordd y mae eich sefydliad yn gweld tlodi mislif / urddas mislif?**<br>o Beth sydd wedi newid o fewn eich sefydliad e.e. polisi, strategaeth, ffyrdd o weithio ac ati? | |

| **S5:** Mae cynhyrchion mislif am ddim a gwybodaeth wedi'u **dyrannu'n gywir ac yn effeithiol** ar draws ysgolion, sefydliadau addysg bellach a lleoliadau cymunedol eraill yng Nghymru<br>**Cwestiwn ymchwil: Sut mae cyllid, gwybodaeth a chynhyrchion mislif am ddim wedi'u dyrannu a'u dosbarthu i'r rhai sydd ei angen fwyaf ledled Cymru?** | **20 mun** |
|---|---|

Yn yr adran olaf hon hoffwn siarad am broses y grant...


**15. Pa welliannau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i'r grant?**


- Beth am ddiben y grant a'i ffocws a'r arweiniad a gynigir / a ddarperir?
- Beth am ofynion cymhwysedd a thargedau'r grant e.e. ar beth y gellir ei wario e.e. costau gweinyddol, % a wariwyd ar gynhyrchion ecogyfeillgar, eitemau y gellir eu prynu, % a ddefnyddir ar gyfer addysg / hyfforddiant ac ati?
- Beth am y broses brynu / archebu?
  - Pa mor ddefnyddiol yw archebu gan awdurdodau lleol i chi / eich sefydliad?
  - Sut gellid gwella'r archeb brynu? e.e. Awdurdodau Lleol yn archebu o ganolbwynt


**16. Roedd un o amodau'r cyllid yn golygu bod yn rhaid defnyddio cyfran o hyn ar gynhyrchion a oedd yn rhydd o blastig a/neu y gellir eu hailddefnyddio. Pa effaith, os o gwbl, a gafodd hyn ar y broses ariannu a/neu ddosbarthu cynhyrchion mislif?**


**17. [Awdurdodau Lleol yn unig] A yw cyfuno'r dyraniadau Grant Urddas yn Ystod Mislif yn un grant ar gyfer urddas mislif mewn ysgolion a'r gymuned wedi gweithio'n dda?**

## Atodiad B: Enghreifftiau gweledol o'r bwrdd cymunedol ar-lein






# Atodiad C: Arolwg meintiol (defnyddwyr terfynol a sefydliadau)

## Arolwg defnyddwyr terfynol

Delweddau trwy garedigrwydd Vecteezy.com

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Urddas Mislif

Rydym eisiau clywed am eich profiadau

Mae gennym ni rai cwestiynau rydyn ni eisiau eu gofyn i chi am y cynhyrchion mislif am ddim y mae eich ysgol/coleg neu leoliad cymunedol yn eu darparu. Dylai gymryd dim ond 3 munud i'w gwblhau.

Byddwn yn rhannu'r canfyddiadau gyda Llywodraeth Cymru, ond ni fydd neb byth yn gwybod pwy ydych chi gan na fyddwn yn gofyn am unrhyw wybodaeth bersonol. Dim ond y tîm ymchwil yn M·E·L Research fydd yn gallu gweld eich atebion. Ni fyddwn yn eu defnyddio ar gyfer unrhyw beth heblaw'r ymchwil hwn.

1. **Ticiwch y blychau isod i gadarnhau eich bod yn hapus i gymryd rhan yn yr ymchwil:**

☐ Rwyf wedi penderfynu cymryd rhan yn yr ymchwil fy hun.

☐ Rwy'n gwybod nad oes rhaid i mi gymryd rhan yn yr ymchwil (mae'n 100% gwirfoddol) a gallaf roi'r gorau iddi unrhyw bryd os byddaf yn newid fy meddwl.

2. **Ydych chi'n cwblhau'r arolwg hwn o'ch... [Ticiwch un yn unig]**

☐ Ysgol Gynradd ☐ Ysgol Uwchradd ☐ Coleg ☐ Arall e.e. o leoliad cymunedol

3. **Gan feddwl am y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi cael mynediad, at gynhyrchion mislif am ddim o'ch ysgol/coleg neu leoliad cymunedol, ac os felly, pam roedd angen I chi gael mynediad? [Ticiwch bob un sy'n berthnasol]**

| | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ | **Do** – fe wnes i anghofio / rhedeg allan o / doedd gen i ddim o'r cynhyrchion mislif yr oedd eu hangen arnaf | ☐ | **Do** - mae'n well gen i beidio â dweud pam |
| ☐ | **Do** - yn gyffredinol rwy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at gynhyrchion mislif | ☐ | **Na** – nid oedd angen i mi erioed gael mynediad at y cynhyrchion mislif am ddim a ddarparwyd |
| ☐ | **Do** - dydw i ddim yn hoffi gofyn i fy nheulu am gynhyrchion mislif | ☐ | **Na** – doeddwn i ddim yn ymwybodol eu bod yn cynnig cynhyrchion mislif am ddim |
| ☐ | **Do** – Oherwydd rhywbeth arall, dywedwch wrthym yma_______________________________________________ | | |

4. **Ydych chi erioed wedi defnyddio unrhyw un o'r <u>cynhyrchion mislif ecogyfeillgar / ailddefnyddiadwy am ddim canlynol neu wedi derbyn gwybodaeth amdanynt gan eich ysgol/coleg neu leoliad cymunedol?</u>** [Dewiswch yr holl gynhyrchion / blychau sy'n berthnasol i chi]

**Mae cynhyrchion mislif ecogyfeillgar / y gellir eu hailddefnyddio,** er enghraifft, padiau y gallwch eu golchi a'u defnyddio eto, cwpanau lleuad a chynhyrchion nad oes plastig ynddynt.


☐ Dillad isaf mislif


☐ Padiau mislif sy'nrhydd o blastig


☐ Padiau mislif y gallwch eu hailddefnddio


☐ Cwpan mislif / cwpan lleuad

Rhywbeth arall - dywedwch wrthym yma

☐ Rwyf wedi derbyn gwybodaeth ac addysg am gynhyrchion ecogyfeillgar/y gellir eu hailddefnyddio gan fy ysgol/coleg neu leoliad cymunedol

☐ **Nid** wyf wedi defnyddio unrhyw gynhyrchion ecogyfeillgar/y gellir eu hailddefnyddio a ddarperir gan fy ysgol/coleg neu leoliad cymunedol

Delweddau trwy garedigrwydd Vecteezy.com

5. **Gan feddwl am y flwyddyn ddiwethaf, beth, os unrhyw beth sydd wedi eich atal rhag cael mynediad at gynhyrchion mislif am ddim pan fyddwch eu hangen o'ch ysgol/coleg neu leoliad cymunedol?** [Ticiwch bob un sy'n berthnasol]

**Mae cynhyrchion mislif tafladwy** yn, er enghraifft, cynhyrchion sy'n cynnwys plastig a / neu rydych chi'n eu taflu ar ôl un defnydd.

| | Ecogyfeillgar / y gellir eu hailddefnyddio | Gynhyrchion mislif tafladwy |
|---|---|---|
| Nid ydynt ar gael i'w cymryd bob amser | ☐ | ☐ |
| Mae'n anodd cael gafael arnyn nhw e.e. Mae'n rhaid i mi ofyn i rywun am gynnyrch(au) | ☐ | ☐ |
| Nid ydynt yn cael eu cadw mewn lleoliadau cyfleus neu hawdd eu cyrraedd | ☐ | ☐ |
| Mae'n well gen i ddefnyddio brandiau / cynhyrchion eraill sy'n cael eu prynu yn rhywle arall | ☐ | ☐ |
| Dydw i ddim yn hoffi'r cynnyrch / y dyluniad / ansawdd | ☐ | ☐ |
| Nid wyf yn gwybod sut i'w defnyddio | ☐ | ☐ |
| Nid wyf yn gwybod sut i lanhau'r cynnyrch | ☐ | |
| **Nid oeddwn** yn ymwybodol bod cynhyrchion mislif tafladwy am ddim ar gael yn fy ysgol/coleg neu leoliad cymunedol | ☐ | ☐ |
| Rhywbeth arall, dywedwch wrthym yma ____________________________________________ | ☐ | ☐ |
| Nid oedd **dim** yn fy atal rhag cael mynediad at gynhyrchion mislif am ddim pan oeddwn eu hangen | ☐ | ☐ |
| **Ddim yn berthnasol** i mi gan nad oes angen i mi gael mynediad at gynhyrchion mislif am ddim | ☐ | ☐ |

6. **O ganlyniad i'r cynllun yn eich ysgol/coleg neu leoliad cymunedol sy'n darparu cynnyrch mislif a/neu wybodaeth am ddim, dywedwch wrthym os ydych yn cytuno, yn ansicr neu'n anghytuno â'r canlynol...**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n llai tebygol o **golli ysgol/coleg, chwaraeon neu weithgareddau cymdeithasol eraill** pan fyddaf yn cael mislif naw | ☐ Cytuno | ☐ Ddim yn siŵr | ☐ Anghytuno | ☐ Ddim yn berthnasol i mi |
| Gallaf gael **cynhyrchion mislif am ddim yn hawdd** nawr | ☐ Cytuno | ☐ Ddim yn siŵr | ☐ Anghytuno | ☐ Ddim yn berthnasol i mi |
| Gallaf **gael cynhyrchion mislif eco-gyfeillgar/y gellir eu hailddefnyddio yn hawdd** nawr | ☐ Cytuno | ☐ Ddim yn siŵr | ☐ Anghytuno | ☐ Ddim yn berthnasol i mi |
| Rwy'n teimlo'n **fwy hyderus i siarad â phobl** yn agored am y mislif nag o'r blaen | ☐ Cytuno | ☐ Ddim yn siŵr | ☐ Anghytuno | ☐ Ddim yn berthnasol i mi |
| Mae gen i **fwy o arian** i'w arbed/gwario ar bethau eraill nawr | ☐ Cytuno | ☐ Ddim yn siŵr | ☐ Anghytuno | ☐ Ddim yn berthnasol i mi |
| Mae gen i lai o **embaras** am fy mislif yn awr | ☐ Cytuno | ☐ Ddim yn siŵr | ☐ Anghytuno | ☐ Ddim yn berthnasol i mi |
| Rwy'n gwybod mwy am gynhyrchion mislif ecogyfeillgar/y gellir eu hailddefnyddio nag a wnes i o'r blaen | ☐ Cytuno | ☐ Ddim yn siŵr | ☐ Anghytuno | ☐ Ddim yn berthnasol i mi |
| Rwy'n poeni llai am fy mislif nawr | ☐ Cytuno | ☐ Ddim yn siŵr | ☐ Anghytuno | ☐ Ddim yn berthnasol i mi |
| Ar y cyfan, mae gen i brofiad gwell pan mae gen i fy mislif nawr | ☐ Cytuno | ☐ Ddim yn siŵr | ☐ Anghytuno | ☐ Ddim yn berthnasol i mi |

**DIOLCH I CHI AM EICH ADBORTH – Dychwelwch yr arolwg hwn gan ddefnyddio'r amlen Rhadbost a ddarparwyd.**

Arolwg sefydliadol

**I - Iaith**

Yn gyntaf, a fyddai’n well gennych i rywun barhau â’r cyfweliad hwn gyda chi yn y Gymraeg neu Saesneg?

❍ Cymraeg
❍ Saesneg

**C1 - Beth yw eich rôl mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi mislif ac urddas mislif ar gyfer eich sefydliad? Arweinydd Tlodi / Urddas Mislif ar gyfer y grant?**

Ychydig am eich sefydliad a'r bobl yr ydych yn eu cefnogi

Beth yw eich rôl mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi mislif ac urddas mislif ar gyfer eich sefydliad?

Ticiwch bob un sy'n berthnasol

❑ Arweinydd Tlodi / Urddas Mislif ar gyfer y grant
❑ Gweinyddiaeth e.e. prynu cynhyrchion ac ati.
❑ Nyrs ysgol, cymorth bugeiliol
❑ Marchnata a chyfathrebu
❑ Darparu addysg a hyfforddiant
❑ Arall, disgrifiwch yma____________

**C2 - Beth sy’n disgrifio orau’r sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli?**

❍ Awdurdod Lleol
❍ Sefydliad Addysg Bellach / Coleg
❑ Ysgol Gynradd
❑ Ysgol Uwchradd
❍ Sefydliad cymunedol arall

**Pa Awdurdod Lleol ydych chi'n ei gynrychioli?**

❍ Blaenau Gwent
❍ Pen-y-bont ar Ogwr
❍ Caerffili
❍ Caerdydd
❍ Sir Gaerfyrddin
❍ Ceredigion
❍ Conwy
❍ Sir Ddinbych
❍ Sir Fflint
❍ Gwynedd
❍ Ynys Môn
❍ Merthyr Tudful
❍ Sir Fynwy
❍ Castell-nedd Port Talbot
❍ Casnewydd
❍ Sir Benfro
❍ Powys
❍ Rhondda Cynon Taf
❍ Abertawe
❍ Bro Morgannwg
❍ Torfaen

❍ Wrecsam

**C3 - Pa sefydliad cymunedol arall yr ydych yn ei gynrychioli?**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ Hyb cymunedol, grŵp neu gymdeithas
❑ Llyfrgell
❑ Banc bwyd
❑ Canolfan Hamdden
❑ Arall, disgrifiwch yma____________

**C4 - Pa rai o'r grwpiau oedran isod ydych chi'n darparu ar eu cyfer?**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ 8-11 oed
❑ 12-15 oed
❑ 16-17 oed
❑ 18-24 oed
❑ 25-34 oed
❑ 35-44 oed
❑ 45-54 oed
❑ 55-64 oed
❑ 65 neu hŷn
❍ Pob un o'r uchod

**C5 - Er mwyn i ni allu deall yr amrywiaeth o sefydliadau sydd wedi cymryd rhan, a allwch chi ddarparu cod post llawn eich sefydliad. Os oes gennych fwy nag un safle, nodwch y cod post yr ydych wedi'ch lleoli ynddo'n bennaf.**

**C6 - A ydych yn gwasanaethu / cefnogi unrhyw un o'r grwpiau isod o bobl?**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol.*

❑ Pobl sy'n byw mewn cartrefi ar incwm isel
❑ Pobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig
❑ Pobl a all fod ag amhariad neu angen iechyd hirdymor (naill ai’n gorfforol neu’n feddyliol)
❑ Mudwyr dan orfod, gan gynnwys Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
❑ Grwpiau lleiafrifoedd ethnig
❑ Pobl a all fod yn ddigartref fel y rhai sy'n cysgu ar y stryd, syrffio soffa ac ati.
❑ cymunedau LHDTC+
❍ Pob un o'r uchod
❍ Dim un o'r uchod

**C7 - Dewiswch y prif grwpiau lleiafrifoedd ethnig yr ydych yn eu gwasanaethu a / neu'n eu cefnogi:**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig neu Roma
❑ Grwpiau ethnig Cymysg neu Lluosog
❑ Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig
❑ Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd
❑ Grŵp lleiafrifoedd ethnig arall - disgrifiwch yma____________

**C8 - O ba gyfnod o amser ydych chi wedi derbyn cyllid gan y Grant Urddas mislif?**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ 2017/18

❑ 2018/19
❑ 2019/20
❑ 2020/21
❑ 2021/22
❑ 2022/23

**C9 - Ymwneud blaenorol Cyn y Grant Urddas Mislif, sut gwnaeth eich sefydliad gefnogi pobl sy'n cael mislif?**

**Ticiwch bob un sy'n berthnasol**

❑ Cynnig cynhyrchion mislif am ddim (Ac eithrio. cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a / neu heb blastig)
❑ Cynnig cynhyrchion mislif am ddim y gellir eu hailddefnyddio a / neu heb blastig
❑ Cynnig cynhyrchion mislif y talwyd amdanynt
❑ Cynnig gwybodaeth am y mislif i bobl sy'n cael mislif
❑ Cynnig gwybodaeth am y mislif i bobl nad ydynt yn profi mislif
❑ Cynnig cyllid i sefydliadau eraill
❑ Cynnig postio am ddim / danfon nwyddau mislif i'r cyfeiriad cartref
❑ Arall, disgrifiwch yma____________
❍ Ni wnaethom ddarparu cymorth

**C10 - Cyn y Grant Urddas Mislif, a yw eich sefydliad erioed wedi cyrchu cyllid ar gyfer…**

| | Ydi | Nac ydi | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|
| Cynhyrchion mislif am ddim | ☐ | ☐ | ☐ |
| Adnoddau addysgol ar y mislif | ☐ | ☐ | ☐ |

**C11 Ar gyfer pob cyfnod, dywedwch wrthym faint o sefydliadau cynradd, uwchradd a / neu gymunedol yr ydych wedi'u cefnogi drwy'r Grant Urddas Mislif.**

*Defnyddiwch ffigurau rhifiadol yn unig.*

| | Q11PS - Ysgol gynradd | Q11SS - Ysgol uwchradd | Q11CE - Sefydliad cymunedol e.e. grwpiau, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden ac ati |
|---|---|---|---|
| 2017/18 | ______ | ______ | ______ |
| 2018/19 | ______ | ______ | ______ |
| 2019/20 | ______ | ______ | ______ |
| 2020/21 | ______ | ______ | ______ |
| 2021/22 | ______ | ______ | ______ |
| 2022/23 | ______ | ______ | ______ |

**C12 - A ydych chi wedi gwneud neu yn gwneud unrhyw beth sydd wedi gweithio'n arbennig o dda o ran y ffordd y gwnaethoch chi fynd ati i gefnogi pobl sy'n cael mislif? (Os felly, dywedwch wrthym amdano isod)**

*Er enghraifft, lleoliad staff; dulliau dosbarthu cynnyrch mislif; targedu cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol; ffyrdd o gydweithio; hybu ymwybyddiaeth / nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun; sut i normaleiddio mislif / cael gwared ar stigma; dod â manteision amgylcheddol*

**C13 - Sut ydych chi'n hyrwyddo / codi ymwybyddiaeth o'r cynhyrchion mislif am ddim sydd ar gael?**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ Postiadau cyfryngau cymdeithasol
❑ Cylchlythyrau

❑ Gwefan
❑ Posteri / pamffledi
❑ Cyfarfodydd grŵp / gwasanaethau
❑ Sgyrsiau / sesiynau addysgol
❑ Cysylltiadau â rhanddeiliaid eraill fel meddygon teulu, clinigau iechyd rhywiol, cyfleusterau chwaraeon, grwpiau a chymdeithasau ac ati.
❑ Arall, disgrifiwch yma____________

**C14 - Pa rai o'r mathau canlynol o gynhyrchion mislif rhad ac am ddim neu gynhyrchion eraill sy'n cefnogi pobl â mislif ydych chi'n eu cynnig/prynu trwy'r grant ar hyn o bryd?**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ Padiau mislif tafladwy
❑ Padiau mislif di-blastig
❑ Padiau mislif y gellir eu hailddefnyddio
❑ Tamponau gyda thaenwr
❑ Tamponau heb daenwr
❑ Cwpanau mislif
❑ Dillad isaf mislif
❑ Bagiau gwaredu glanweithiol
❑ Dillad e.e. oherwydd dillad wedi'u staenio neu eu baeddu
❑ Arall, disgrifiwch yma____________

**C15 - Yn ystod cyfnod cyllido 2022/23, pa gyfran o'r cynhyrchion a brynwyd gennych a wariwyd ar gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a / neu heb blastig?**

❍ O leiaf 50%
❍ Mwy na 50% ond llai na 90%
❍ 90% neu fwy

**C16 - Yn eich geiriau eich hun, a fyddech cystal â chrynhoi sut yr ydych wedi mynd ati i addysgu pobl ar ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a / neu ddi-blastig?**

**C17 - Pa mor aml mae'r cynhyrchion mislif rhad ac am ddim yn cael eu defnyddio gan y bobl rydych chi'n eu cefnogi?**

| | Aml | O bryd i'w gilydd | Anaml | Byth | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Padiau mislif tafladwy | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau mislif di-blastig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Padiau mislif y gellir eu hailddefnyddio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tamponau gyda thaenwr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tamponau heb daenwr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cwpanau mislif | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dillad isaf mislif | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bagiau cael gwared ar eitemau glanweithiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Pyrsiau storio / bagiau gwlyb i'w defnyddio gyda chynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dillad e.e. oherwydd dillad wedi'u staenio neu eu baeddu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Arall | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C18 - Sut ydych chi'n monitro ymwybyddiaeth a / neu'r defnydd o gynhyrchion mislif am ddim?**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ Tracio ymweliadau â'r wefan
❑ Cyfraddau cais / archebu ar y gwefan
❑ Hoffterau cyfryngau cymdeithasol, ail-bostio, dilynwyr ac ati.
❑ Casglwch ddata gan y bobl rydych wedi bod yn eu cefnogi er enghraifft, trwy arolygon
❑ Nifer y cynhyrchion mislif am ddim a gymerir gan y bobl yr ydych yn eu cefnogi e.e. trwy gyfrif neu gyfraddau ail-lenwi peiriannau gwerthu am ddim
❑ Arall, disgrifiwch yma____________
❑ Nid ydym yn monitro'r nifer sy'n cael cynhyrchion mislif am ddim
❑ Nid ydym yn monitro ymwybyddiaeth o gynhyrchion mislif am ddim

**C19 - Ac eithrio cynnig cynnyrch mislif am ddim, ym mha ffordd arall ydych chi wedi cefnogi pobl drwy'r cyllid a gawsoch?**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ Cynnig hyfforddiant ac addysg i weithwyr proffesiynol / cynrychiolwyr cymunedol gyda'r cyfle i fynd â chynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a/neu heb blastig adref gyda nhw
❑ Cynnig hyfforddiant ac addysg ar y mislif i bobl sy'n cael mislif gyda'r cyfle i fynd â chynnyrch y gellir eu hailddefnyddio a/neu heb blastig adref gyda nhw.
❑ Cynnig hyfforddiant ac addysg ar y mislif i bobl nad ydynt yn profi mislif e.e. dynion, bechgyn gyda'r cyfle i fynd â chynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a/neu heb blastig adref gyda nhw
❑ Wedi darparu gwybodaeth gyffredinol e.e. posteri, pamffledi, cyfeirio
❑ Postio am ddim / danfon nwyddau mislif i'r cyfeiriad cartref
❑ Arall, disgrifiwch yma____________
❍ Dim

**C20 - Pa rwystrau, os o gwbl, y mae eich sefydliad wedi'u hwynebu wrth gynnig cynnyrch / cymorth mislif am ddim i bobl?**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ Dod o hyd i gynnyrch / cyflenwyr addas
❑ Oedi gan gyflenwyr
❑ Problemau storio ar y safle
❑ Adnoddau staff / argaeledd staff
❑ Arbenigedd / sgiliau staff addas
❑ Mynediad i ddeunyddiau addysgiadol a hyfforddiant addas
❑ Mynediad at wybodaeth gyffredinol e.e. posteri, taflenni, cyfeirio
❑ Nodi arfer gorau / rhannu'r hyn sy'n gweithio
❑ Rhwystrau iaith
❑ Rhwystrau diwylliannol
❑ Cefnogi'r rhai sydd ag amhariad
❑ Gallu cynnig mannau glân i bobl glanhau a golchi
❑ Defnydd isel o gynhyrchion mislif am ddim (ac eithrio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a / neu gynhyrchion di-blastig)
❑ Nifer isel yn defnyddio cynhyrchion am ddim y gellir eu hailddefnyddio a/neu heb blastig
❑ Galw mawr am gynhyrchion mislif am ddim (ac eithrio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio a / neu heb blastig)
❑ Galw mawr am gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio am ddim a / neu heb blastig
❑ Arall, disgrifiwch yma____________
❍ Dim rhwystrau / her wedi'u profi
❍ Ddim yn berthnasol

**C21 - Beth, os o gwbl, ydych chi wedi'i wneud i oresgyn y rhwystrau hyn?**

**C22 - Beth ydych chi'n meddwl yw'r prif resymau dros y ______?**

**C23 - Pa fylchau, os o gwbl, yn y gefnogaeth a / neu'r defnydd o gynhyrchion mislif am ddim sy'n bodoli ar gyfer cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol?**

*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ Mynediad rheolaidd i gynhyrchion mislif am ddim
❑ Gallu siarad am y mislif â rhwydweithiau teuluol
❑ Gallu siarad ag eraill am y mislif y tu allan i rwydwaith y teulu
❑ Deall sut i ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio fel cwpanau lleuad ac ati.
❑ Gallu golchi / glanhau cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio fel dillad isaf amsugnol ac ati.
❑ Mynediad at ddillad isaf glân yn ystod mislif gartref neu y tu allan i'r cartref
❑ Materion preifatrwydd
❑ Mynediad at feddyginiaethau lleddfu poen
❑ Rhywbeth arall, disgrifiwch yma____________
❍ Ddim yn gwybod
❍ Dim

**C24 - Pa gymorth ychwanegol, os o gwbl, ydych chi wedi'i gael y tu allan i'r grant i helpu i gefnogi pobl sy'n cael mislif?**
*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

❑ Cyllid (nad oedd yn rhan o'r Grant Urddas Mislif)
❑ Gwybodaeth e.e. posteri, taflenni
❑ Hyfforddiant ac addysg
❑ Arall, disgrifiwch yma____________
❍ Dim o'r rhain

**C25 - I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:**

**O ganlyniad i'r Grant Urddas Mislif, mae'r bobl rydych chi'n gweithio gyda sy'n eu cefnogi sydd â misgl bellach:**

| | Cytuno'n bendant | Tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno yn bendant | Ddim yn siŵr / ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn llai tebygol o golli ysgol a / neu weithgareddau cymdeithasol eraill yn ystod mislif | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn cael mynediad hawdd at gynhyrchion mislif am ddim | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn cyrchu cynhyrchion mislif am ddim y gellir eu hailddefnyddio a / neu blastig yn hawdd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | Cytuno'n bendant | Tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno yn bendant | Ddim yn siŵr / ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn fwy abl i siarad yn agored am y mislif | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn llai tebygol o deimlo embaras am eu mislif | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Meddu ar fwy o wybodaeth am sut i ddefnyddio cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a / neu heb blastig | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C26 - I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:**

**O ganlyniad i'r Grant Urddas Mislif…**

| | Cytuno'n bendant | Tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno yn bendant | Ddim yn siŵr / ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rwy’n teimlo’n fwy abl i gefnogi pobl a allai fod yn profi tlodi mislif | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy’n teimlo’n fwy hyderus wrth ddarparu cyngor a gwybodaeth am y mislif i bobl sydd ei angen | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy'n teimlo'n fwy gwybodus am nodau a gweledigaeth y grant | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwy’n gliriach am rôl fy sefydliad i wella urddas mislif | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**C27a Adborth ar ddyraniad a dosbarthiad y grant**

**Yn yr adran olaf hon, hoffem gael rhywfaint o adborth ar y broses grant.**

**Sut ydych chi'n mynd ati i ddyrannu a / neu ddosbarthu'r cyllid?**

| | |
|---|---|
| Ar gyfer ysgolion Cynradd / Uwchradd | ________________________________ |
| Ar gyfer Hybiau Cymunedol, grwpiau ac ati | ________________________________ |

**C27b - Adborth ar ddyraniad a dosbarthiad y grant**

**Yn yr adran olaf hon, hoffem gael rhywfaint o adborth ar y broses grant.**
**Sut ydych chi'n mynd ati i ddyrannu a / neu ddosbarthu'r cyllid?**

**C28 - I ba raddau ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r canlynol:**

❍ Bodlon iawn
❍ Eithaf bodlon
❍ Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
❍ Eithaf anfodlon
❍ Anfodlon iawn
❍ Ddim yn siŵr / ddim yn berthnasol

**C29 - Soniasoch eich bod yn anfodlon ar [ateb yn seiliedig ar C28] o'r broses Grant Urddas Mislif, pam mae hyn?**

**C30 - Ymchwil pellach**

**Diolch i chi am ateb yr arolwg hwn, mae eich adborth yn bwysig iawn! Mae angen eich cymorth ar Lywodraeth Cymru o hyd i ddeall sut mae'r Grant Urddas Mislif wedi effeithio ar y bobl rydych yn eu cefnogi.**

**A fyddech chi'n fodlon eu helpu i ddeall eich profiadau o'r Grant Urddas yn fwy manwl.**

❍ Gallaf, os gwelwch yn dda – cewch eich tywys i ffurflen newydd lle gallwch ddweud wrthym sut yr hoffech ein helpu
❍ Dim diolch

**Atodiad D: Enghraifft o ffurflen fonitro ddiweddaraf 2022-2023 a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru**

**Grant Urddas Mislif 2022-2023**

**Ffurflen Fonitro**

Awdurdod lleol: ______________________________

Y swyddog sy'n cwblhau'r ffurflen ______________________________

Cyfanswm y grant a ddyrannwyd: ______________________________

Cwblhewch Tabl 1 isod gan roi manylion y sefydliadau sydd wedi cael budd o'r Grant Urddas Mislif.

| | | |
|---|---|---|
| Sawl ysgol gynradd sydd wedi cael cyllid neu nwyddau o ganlyniad i'r grant urddas mislif yn ystod y cyfnod monitro hwn? | | |
| Sawl ysgol uwchradd sydd wedi cael cyllid neu nwyddau o ganlyniad i'r grant urddas mislif yn ystod y cyfnod monitro hwn? | | |
| Faint o sefydliadau cymunedol (canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, hybiau, banciau bwyd ac ati) sydd wedi cael cyllid neu nwyddau o ganlyniad i'r grant Urddas Mislif yn ystod y cyfnod monitro hwn? | **Math o sefydliad** | |
| | *E.g. Banciau bwyd* | *12* |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| A oes unrhyw gamau ychwanegol (ar wahân i'r gwaith dosbarthu i ysgolion a sefydliadau yn y gymuned uchod) wedi cael eu cymryd i ddosbarthu nwyddau'n uniongyrchol i bobl ar incwm isel? Os felly, faint o bobl wnaeth dderbyn nwyddau'n unionhyrchol? | | |
| Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i dargedu cymunedau sy'n cael eu tanwasanaethu, gan gynnwys cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl anabl a chymunedau LHDTC+ drwy'r grant. | | |

Cwblhewch Tabl 2 isod gan roi manylion y gweithgarwch a ddigwyddodd o ganlyniad i'r Grant Urddas Mislif 2022-2023. Dangosir enghraifft mewn llythrennau italig. Ychwanegwch ragor o resi yn ôl yr angen.

| | **TABL 2 – GWEITHGAREDDAU– 1 Ebrill 2022 i 30 Medi 2022** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y math o nwydd a brynwyd** | **Nifer y nwyddau a brynwyd** | **Y sefydliadau a dderbyniodd y nwyddau** | **Cyllid grant a wariwyd** | **Y sawl sydd wedi cael budd** |
| *Tyweli ar gyfer y mislif* | *200 pecyn* | *Lloches* | *£100 ar nwyddau*<br>*£20 ar cludiant.* | *200 o becynnau o dyweli misglwyf a ddosbarthwyd er budd y 400 o fenywod/teuluoedd a gyrchodd lety lloches rhwng Ebrill a Gorffennaf 2022* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Pa granran o ysgolion gynradd yn ardal eich awdurdod lleol sydd wedi cael cyllid neu nwyddau drwy'r grant hwn yn 2022-2023?

Pa granran o ysgolion uwchradd yn ardal eich awdurdod lleol sydd wedi cael cyllid neu nwyddau drwy'r grant hwn yn 2022-2023?

Pa ganran o'ch grant sydd wedi ei gwario ar nwyddau eco-gyfeillgar (y gellir eu hailddefnyddio a / neu heb blastig)?

**Training activity**

Gweithgarwch hyfforddi

Gellir defnyddio hyd at 20% o gyfanswm y grant cyfun at ddibenion hyfforddiant neu addysg mewn ysgolion a chymunedau, ar gyfer gweithwyr proffesiynol, dysgwyr, ac aelodau o'r gymuned.

Nodwch isod pa hyfforddiant sydd wedi'i ddarparu o dan yr adroddiad ar gyfer monitro'r grant a chynnwys gwybodaeth am fwriad cyfranogwyr i roi cynnig / defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio:

| **Darparwr yr hyfforddiant** | **Lleoliad yr hyfforddiant** | **Nifer y cyfranogwyr** | **Cost yr hyfforddiant** | **Gwybodaeth gwerthuso - rhowch ddolenni cyswllt at adroddiadau perthnasol sy'n cynnwys cyfranogwyr/bwriad i geisio/defnyddio nwyddau y gellir eu hailddefnyddio)** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

Awdurdod Lleol: ____________________

Cyfanswm hawliad grant: ____________________

**Datganiad:**

Yr wyf, drwy hyn, yn hawlio grant sy'n daladwy o dan y rhaglen grant uchod ar ran yr Awdurdod Lleol uchod. Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:

(a) bod yr holl wybodaeth a roddwyd yn gywir

(b) bod y grant sy'n cael ei hawlio o fewn terfynau'r gwariant sydd wedi'i gymeradwyo

(c) bod yr holl wariant a nodwyd yn gymwys ar gyfer cyllid o dan Gynllun Grant Urddas Mislif yn yr Ysgol, ac y mae wedi neu y bydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau ac amodau'r grant.

(d) bod yr holl wariant a nodwyd wedi'i wneud yn y cyfnod hawlio y mae'n berthnasol iddo.

**MAE ANGEN LLOFNOD DAU BERSON**

____________________ Llofnod

____________________ Enw

____________________ Teitl Swydd

____________________ Dyddiad

____________________ Llofnod

____________________ Enw

____________________ Teitl Swydd

____________________ Dyddiad

**Dychwelwch y ffurflen hon mewn e-bost neu anfonwch unrhyw ymholiadau at EqualityAndHumanRightsDivision@gov.wales.**